tafod elái

RHAGFYR 2025

Rhif 403

£1

## Herio'r Elfennau i Gefnogi Plant Gaza



Ers clywed am yr hyn oedd yn digwydd i'r plant yn Gaza, mae Gwenno, sy'n saith oed ac yn byw ym Mhontypridd, wedi bod eisiau helpu.

Yn ddiweddar, gosododd her iddi hi ei hun i ddringo Pen y Fan, y copa uchaf yn ne Cymru ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae wedi codi swm anhygoel o £550 ar gyfer Cronfa Argyfwng Achub y Plant.

Gan herio'r elfennau ar ddiwrnod gwlyb a gwyntog, roedd Gwenno yn benderfynol o gyrraedd ei nod a choncro'r copa 2,907 troedfedd a chafodd gefnogaeth bob cam o'r ffordd gan ei theulu.

Meddai Gwenno: "Roeddwn i'n gyffrous ond oherwydd ei bod hi'n bwrw glaw ac mor wyntog roedd hi'n anodd iawn. Roedd fy nwylo mor oer nes eu bod nhw'n teimlo fel eu bod nhw'n mynd i ffrwydro! Ond roedd fy Mam a Dad a fy mrawd yn fy helpu, ac roedd gennym ni losin yn y rycsacs i'n cadw ni i fynd. Roeddwn i'n falch o gael mynd yn ôl i'r car i gynhesu a chawson ni siocled poeth o'r fan ar waelod y mynydd, a chefais i falws melys a hufen hefyd!

"Dywedodd fy athrawes wrtha i am y plant yn Gaza ac fod ganddyn nhw ddim bwyd, na dŵr glân na lle i gysgu yn y nos os yw hi'n bwrw glaw. Roeddwn i eisiau helpu ac iddyn nhw wybod bod plant yng Nghymru yn meddwl amdanyn nhw ac rydw i mor hapus fy mod i wedi codi cymaint o arian."

Ychwanegodd mam Gwenno, Rachel: "O dan amodau heriol iawn fe wnaeth hi waith anhygoel – gyda diolch mawr i'w brawd mawr Iolo am fod yn gefn iddi! Roedd y 'paned' a'r siocled poeth ar y diwedd hefyd yn haeddiannol. Rydyn ni mor falch ohoni a'i chalon fawr.

"Mae hi wedi dewis Achub y Plant gan eu bod nhw yn gallu helpu plant Gaza yn uniongyrchol i ailadeiladu eu bywydau. Mae eu gweledigaeth yn glir: creu byd lle mae pob plentyn yn ffynnu, yn cael ei glywed a'i werthfawrogi, a chreu gobaith am ddyfodol mwy cyfiawn, cyfartal a chynaliadwy.

Parhad ar dudalen 2 >

## Enillwyr Cenedlaethol




Llongyfarchiadau i Dîm Ponty A ar ennill Cwis Hwyl Cenedlaethol Merched y Wawr ar 7 Tachwedd. Roedd Cangen Pontypridd yn gyntaf gyda 83 o farciau ac aelodau'r tîm oedd Delyth Davies, Dilys Davies, Menna Thomas a Gwerfyl Thomas. Elin Angharad, Llywydd y Rhanbarth a'r cwis feistr sy'n cyflwyno'r tystysgrif.

## Newid Golygydd

Mae cyfnod Penri Williams fel Golygydd Tafod Elái yn dod i ben a blwyddyn nesaf bydd y papur bro yng ngofal Golygydd gwahanol i bob rhifyn. Yn dilyn cyfarfodydd o'r Bwrdd Golygyddol mae deg wedi gwirfoddoli i rannu'r baich a bydd dylunydd/gosodydd newydd yn cadw trefn ar y cyfan. Diolch i'r criw newydd am eu parodrwydd i helpu ac i Eirian Hughes y dylunydd.

Ond mae angen rhagor o gymorth. Mae angen Gohebwyr Lleol newydd ac mae angen cymorth gyda'r cysodi, casglu hysbysebion a swyddogion gweinyddol.

Hefyd mae angen cynyddu'r gwerthiant ymhlith pobl ifanc, dysgwyr a phobl newydd sy'n symud i'r ardal.

Os allwch helpu neu os oes ganddoch chi newyddion neu hanesyn fyddai o ddiddordeb - danfonwch neges i gol@tafodelai.cymru

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd*

**Diolch arbennig i holl ohebwyr a dosbarthwyr Tafod Elái am eich cefnogaeth dros y 40 mlynedd diwethaf**

## Apêl

**Mae angen eich cefnogaeth i barhau i gyhoeddi Tafod Elái**

**Tanysgrifiwch nawr £10 drwy'r wefan www.tafodelai.cymru neu i'ch dosbarthwr lleol**

# tafod elái

*GOLYGYDD*
*Penri Williams*
*029 20890040*

*CYHOEDDUSRWYDD*
*Colin Williams*
*029 20890979*

**Golygydd Mis Chwefror 2026**
**Helen Prosser**

Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
23 Ionawr 2026

**e-bost**
gol@tafodelai.cymru

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafodelai.cymru**

*Argraffwyr:*
EVANPRINT
*www.evanprint.co.uk*

CYMRAEG
*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**



## CLWB Y DWRLYN

**Canu Plygain**
**7yh yn**
**Eglwys Pentyrch**

**Y Fari Lwyd**
**8.30yh y King's Arms**

**Nos Iau**
**8 Ionawr 2026**

*Manylion pellach:*
clwbydwrlyn@pentyrch.cymru

## CYLCH CADWGAN

**Llwybrau Cudd - Anthony Evans**

**30 Ionawr 2026**
**am 8.00 o'r gloch**

**Y Ganolfan, Tabernacl, Efailisaf**

CANOLFAN YR OLWG
Heol Sant Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ
01443 570075



Gig Gwyl Ddewi Twrw Taf
**Daniel Lloyd a Mr Pinc**

Yn 2025 bu'r band yn dathlu 20 mlynedd ers rhyddhau eu albym cyntaf 'Goleuadau Llundain' drwy ddychwelyd i lwyfannau Cymru yn perfformio eu roc egnïol.

Dydd Sadwrn, 28ain Chwefror - 7:30yh £15

rct-theatres.co.uk 03000 040 444

**acapela.pentyrch**

27/1/2026 Rob.Green a Penbleth
25/2/2026 Mari Mathias a Sura Susso
1/3 2026 Catrin Finch
6/3/2026 Yws Gwynedd
2/4/2026 Taran
16/4/2026 Eve Goodman a SERA
16/1/2026 Bwncath (dim tocynnau ar ôl)

**Tocynnau: acapela.co.uk**



**Yr Esgob William Morgan**

Roedd Yr Esgob William Morgan, pan fu farw yn 1604, yn ddyn tlawd gan adael yn ei ewyllys ychydig o lestri piwter, pum pot blodyn, dau baun a dau alarch. Er hyn, yn ystod ei oes, creodd un o drysorau mwya' gwerthfawr y genedl - Y Beibl Cymraeg.

**I'ch Dyddiadur: Mewn Cymeriad**
**Sioe i'r teulu cyfan**
**Prynhawn Sul 18 Ionawr**
**Y Tabernacl, Efail Isaf**

## *Gwledd yr Ŵyl*

## CÔR

**Arweinydd: Osian Rowlands**
**Cyfeilydd: Nia Edwards**
**Gyda Glyndŵr Brass**

**Cerddoriaeth gan**
**Rutter | Stopford | Head | Mendelssohn | Adam | Glyn | Howard | Pierpoint**

**Eglwys Gatholig St Helen, Caerffili**
**7.30yh 19.12.2025**

**£15**

**Tocynnau – osian_llyr@hotmail.com**

**Elw tuag at Eisteddfod yr Urdd Bro'r Wenynen Gwent 2027**

## Gwledd o Gyngerdd



Nos Sadwrn, 29 Tachwedd, cynhaliwyd cyngerdd gan Gôr Godre'r Garth yng Nghapel y Bont, Pontypridd.

Yn yr hanner cyntaf cafwyd cytganau cyfarwydd a newydd gan y côr a swynwyd y gynulleidfa gan yr Unawdydd Soprano, Jessica Robinson. Yn ail hanner y gyngerdd ymunodd Cerddorfa Siambr gyda'r côr a'r unawdydd i berfformio detholiad o'r Meseia gan Handel.

Roedd yn noson ysbrydoledig o dan arweiniad Steffan Watkins a'r cyfeilydd Branwen Evans.

## CREIGIAU

*Gohebydd Lleol:*
*Nia Williams*

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau enfawr Bethan Ellis Owen a Jack Quick ar enedigaeth Wynffi Joni Quick. Am gariad! Ganwyd Wynffi ar y 27ain o Hydref yn pwyso wyth pwys! Jesi, ei chwaer fawr wedi gwirioni. A phawb arall, wrth gwrs. Yn anfon cwtsh a chariad atoch!



## Peintio Golygfeydd



Mae Rachel Baber o Lanhari wedi cyflawni her arbennig drwy beintio 30 llun mewn 30 diwrnod o olygfeydd yn Rhondda Cynon Taf. Bydd ei gwaith yn cael ei arddangos yn y Giles Gallery, Heol y Bontfaen, Pontyclun o'r 13 i'r 30 Ionawr 2026.

Astudiodd Rachel celf yn Ysgol Llanhari ac yna ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr ym Mryste ac mae hi wedi agor stiwdio yn Y Tŷ Model, Llantrisant. Bu Heno, S4C a Newyddion y BBC yn ei dilyn wrth iddi baratoi'r lluniau lliwgar. Dywedodd fod yr ardal yn bwysig iawn iddi, "Dwi'n caru Rhondda Cynon Taf a dwi eisiau dangos fy ngwerthfawrogiad o'r ardal", meddai.



Rachel yn cael ei holi ar Heno

Ewch draw i'r arddangosfa ym Mhontyclun ym mis Ionawr.

## Gŵyl Cerdd Dant



Osian, Gavin ac Aled yn fuddugol
yn y Deuawd/Triawd Cerdd Dant

Llongyfarchiadau i bawb aeth i'r Ŵyl Cerdd Dant yn Aberystwyth dechrau mis Tachwedd.



Stepio Unigol Agored
Cyntaf: Morus Caradog Jones

# Clwb Pêl-droed Cymric yn Cofio Gareth Huws

Mae blwyddyn wedi mynd ers colli Gareth Huws, Pentyrch (a'r "Mochyn Du").

Blwyddyn o ymgynefino a'r golled i'r teulu yn ddi-os, ond blwyddyn hefyd i gyn-chwaraewyr Clwb Pêl-droed Cymric ddod i delerau fod un o'r "Cewri" wedi diflannu o'u mysg.

Oedd, roedd ei bresenoldeb ar y cae yn ystod y cyfnod hir o wasanaeth a roddodd i'r Clwb yn un hynod o werthfawr, gyda pawb a fu'n chwarae gydag o yn mynegi eu parch tuag ato - yn un a fyddai'n ysbrydoli, ac yn canmol a diawlio yn yr un ebychiad.

Ac ef, wedi iddo roi ei esgidiau pêl-droed o'r neilltu, fu'n gyfrifol am gynnal diddordeb y cyn-chwaraewyr yn y Clwb byth ers hynny, gan drefnu nosweithiau cymdeithasol a chiniawa Nadolig, fel bod y fflam yn cael ei chynnal, a'r atgofion yn cael eu hymestyn o gyfarfod i gyfarfod.

Roedd cael Cinio dathlu 50 penblwydd y Clwb yn 2019 yn un o'r digwyddiadau a roddodd y pleser mwyaf iddo, ac un o'r pethau olaf y bu'n ymwneud ag o cyn ei farwolaeth oedd trefnu, ar raddfa llai, i'r cyn-chwaraewyr ymgasglu i ddathlu cyrraedd 55 mlynedd ers sefydlu'r Clwb, gan synhwyro efallai y byddai nifer o'r criw a sefydlodd y Clwb yn 1968/69 wedi ymadael a'r fuchedd hon erbyn 2029 (y "trigeinfed" penblwydd).

Ysywaeth, fu dim dathlu, a damcaniaeth Gareth wedi ei wireddu am ei absenoldeb ei hun y tro yma!



Ond bydd y cof am Gareth yn parhau yn hanes Clwb Cymric am flynyddoedd i ddod, oherwydd dymuniad y cyn-chwaraewyr oedd nodi ei gyfraniad i'r Clwb trwy gyflwyno iddynt "*Tlws Gareth Huws*", a hwnnw i'w roi i ddewis "chwaraewr y flwyddyn" ymysg aelodau'r tim cyntaf.

Trosglwyddwyd y tlws i'r Clwb ar y 1af o Dachwedd, yng nghwmni gweddw Gareth, Morfydd Huws, ynghyd a'i mab Rhodri, a Myfi yr wyres (a do fe enillwyd y gem yn erbyn Pencoed o 4 gôl i 1!).






# Merched y Wawr Cangen y Garth

Ym mis Tachwedd cawsom ymwelwyr tra arbennig! Steve Sims a'i gyfaill mynwesol Bailey - cyfaill gorau dyn meddid - a dyna yn wir oedd Bailey, ei lab du, cwta dyflwydd oed, oedd ar ganol ei chwrs hyfforddi i'w pharatoi at wasanaeth fel ci tywys. Galwai Steve ei hun yn ddysgwr - ond arddelai Gymraeg glân gloyw. Brodor o Gaerffili, wedi treulio blynyddoedd fel uwch-swyddog yn y fyddin, ac yna wedi gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd. Syndod cymaint o'r gynulleidfa oedd yn 'nabod Steve - trwy ei waith, trwy ei ymgyrchu - yn codi ymwybyddiaeth o'r angen am gefnogaeth i'r elusen Cŵn Tywys. Elusen sy'n llwyr ddibynnol ar gyfraniadau gan y cyhoedd. Mae Sue, gwraig Steve yn ddall ers ei phlentyndod ac yn llwyr ddibynnol ar Saxon, ei chi tywys. Saxon yw'r wythfed



ci iddi gael yn gymar. Wyth hefyd yw'r nifer o gŵn tywys mae Steve wedi eu maethu. Cyfraniad anhygoel! Soniodd sut y caiff ci bach ei ddewis yn y lle cyntaf - mae yna fridwyr cydnabyddedig sy'n magu cŵn at y diben hwn. Mae'r labs, y retrievers, y German Shepherds a hyd yn oed y cock-a-poos yn gwneud cŵn tywys ardderchog. Ond, nid pob un sy'n llwyddo! Rhannodd Steve hanes un lab coch oedd yn or-hoff o wiwerod - ac o'r herwydd ni wnaeth gymhwyso! Ar hyn o bryd mae Bailey yn fyfyrwraig yng ngholeg hyfforddi cŵn tywys Llaneirwg. Unig goleg hyfforddi Cymru. Mae hi'n mynychu gwersi bob dydd - ond cafodd bardwn i ddod atom ni - am awr fach - rhan o'i hyfforddiant! Roedd bod yng nghanol deg ar hugain o aelodau MyW - y rhan fwyaf wedi gwirioni arni - yn brofiad iddi. Roedd hi mor ufudd, mor ffel, mor dawel a digyffro - a hynny heb fod dan warchae ei *harness* - roedd hi'n anhygoel. Y tristwch yw bydd ei chyfnod gyda Steve a Sue yn dod i ben ym mis Ionawr, pan fydd yn mynd ymlaen i weithio gyda pherson dall mewn cartref newydd. Ar hyn o bryd mae tua 300 o gŵn tywys ar waith yng Nghymru. Mae yna restr aros hir. Dyma rai o'r ffeithiau rannodd Steve gyda ni wrth gloi -

- cost bridio ci bach - £7,000
- cost magu ci bach - £14,000
- cost hyfforddi ci tywys - £56,000
- cost blynyddol cynnal ci tywys - £3,000

Fel y gellwch ddychmygu mae pob un cyfraniad yn cael ei werthfawrogi.

Felly, os teimlwch chi y carech wneud unrhyw gyfraniad - mawr neu fach - at yr elusen bwysig hon gellwch gysylltu gyda guidedogs@guidedogs.org.uk/0118 983 5555

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Diolch**
Diolch yn fawr i Marian Wynne sydd yn gorffen fel gohebydd Pentyrch ar ôl 21 mlynedd yn cofnodi bywyd y pentref.

**Croeso**
Croeso i'r pentref i Huw a Sharon Williams a'r merched Mali a Mia sydd newydd symud o Lanharan i Heol y Parc. Mae Sharon yn enedigol o'r pentref a Huw o'r Creigiau ac yn gyn-ddisgybl yn ysgol y pentref ac Ysgol Llanhari.

**Dymuniadau Da**
Pob dymuniad da i Cyril Hughes Maes y Sarn sydd gartre ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty.

**Nawdd**
Mae Seren Bean, Bronllwyn yn paratoi i gynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth Hoci Cwpan y Byd i ieuenctid yn Chile ym mis Rhagfyr. Mae'r tîm yn hunan ariannu'r daith a Seren yn ddiolchgar am unrhyw nawdd ar eu tudalen 'Crowdfunder'.

Un arall sy'n casglu nawdd yw Siân Harries o Heol y Pentref a hynny ar gyfer ei thaith yn un o ddeuddeg sy'n gobeithio dringo Kilimanjaro ym mis Chwefror. Y bwriad yw cyrraedd y copa ar Ddydd Gŵyl Dewi. Maen nhw'n codi arian tuag at Ymddiriedolaeth y Brenin (Cymru) sydd yn dathlu 50 mlynedd o gynorthwyo pobl ifanc. Bu Siân yn gwirfoddoli gyda'r mudiad hwn cyn dechrau ar ei chwrs prifysgol ac mae'n teimlo iddi elwa'n fawr o'r profiad hwnnw. Eisoes cynhaliwyd sawl noson codi arian yn y Clwb Rygbi ac mae rhyw bedair mil yn y coffrau a chyfle i unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu wneud hynny drwy ei thudalen 'Just Giving'.

**Cymdeithas Hanes Pentyrch**
Mae'r Gymdeithas Hanes sy'n cwrdd yn fisol yn Neuadd y Pentref yn gwahodd siaradwyr diddorol ar amrywiol bynciau. Yn ddiweddar cafwyd hanes y Mission Hall yn Mhentyrch sydd erbyn hyn yn gartref teuluol. Ym mis Hydref daeth Allan Cook o Radur i sôn am grochenwaith Nantgarw ac arddangos rhai o'r llestri arbennig sydd yn ei gasgliad. John Geraint fydd gwestai mis Tachwedd a bydd yn sôn am ei blentyndod yn y Rhondda.

**Taith y Bwganod**
Llwyddodd Taith y Bwganod yn ystod gwyliau hanner tymor i ddenu llu o ymwelwyr i'r pentref a llwyddwyd i godi



£500 tuag at brosiectau lleol. Llongyfarchiadau i Robbie Miles Penmaes a'r teulu, enillwyr y gystadleuaeth gyda'u creadigaeth gelfydd o Derphy allan o KPop Demon Hunters.

**Tenis**


Llongyfarchiadau i Twm Rogowski ar ennill Pencampwriaeth Tenis Ieuenctid Pentyrch. Cafwyd gemau cyffrous a chlos iawn i gadw'r gwylwyr ar flaenau'u traed!

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Ioan Gruffudd a'i wraig, Bianca Wallace, ar enedigaeth merch fach, Lila Mae ar 2 Tachwedd. Mae'n siŵr fod Mamgu a Thadcu, Pentyrch, a'r teulu yn dathlu'r achlysur.

**Clwb y Dwrlyn**
Mae noson Huw Llywelyn yn holi ei westai arbennig yn un o uchafbwyntiau calendar Clwb y Dwrlyn. Eleri Sion oedd y gwestai tro yma ac er y tywydd garw roedd y Clwb Rygbi dan ei sang. Drwy holi deheuig Huw, cawsom gip ar fywyd Eleri, ei magwraeth ar fferm fach yn Nyffryn Aeron a'i gyrfa fel darlledwraig lwyddiannus. Soniodd am ei dyddiau ysgol yn chwarae hoci a phêl-rwyd, yn taflu'r javelin ac yn canu ac yn adrodd - sylfaen dda ar gyfer ei gyrfa ym myd darlledu.

'Cracabant' oedd ei chyfle cynta' fel darlledwraig tra'n fyfyrwraig ym Mhrifysgol Caerdydd ac yna ymlaen i sylwebu ar Camp Lawn - y ferch gynta' i wneud hynny. Disgrifiodd sawl tro trwstan a'i hymateb i brocio Huw yn adlewyrchu natur ddireidus, naturiol Eleri. Roedd digon o chwerthin! Cyflwynodd bâr arall o ddannedd gosod (plastig) i Jan er cof am y rhai a anfarwolwyd tu cefn llwyfan yn Eisteddfod Tregaron!


Wrth ddewis tair cân yn ystod y noson, soniodd Eleri am ei chyfeillgarwch â Cerys Matthews, ei hedmygedd o Dewi Pws a'i heilun addoliad o Paul Young



pan yn ifanc, heb sôn am yr hyn a ddigwyddodd pan gafodd y fraint annisgwyl o'i gyfweld pan yn hŷn!

Bu'n noson o chwerthin iach a'r tynnu coes, y ffraethineb a'r doniolwch yn sicrhau fod pawb yn gadael yn gwenu. Diolch Huw ac Eleri Sion.

## Darlledu Chwaraeon




Yn y rhifyn diweddaraf o *HanesByw* mae Huw Llywelyn Davies yn olrhain hanes sylwebu ar chwaraeon yn y Gymraeg. Mae'n cynnwys Cynan fel un o'r arloeswyr yn y maes gyda'i gerdd buddugol 'Y Dyrfa', yn 1931. Mae'n mynd ymlaen i sôn am ddyfeisgarwch athrawon megis Victor Hampson-Jones, Gwyn Daniel a thad Huw, Eic Davies, wrth fathu termau newydd.

Gyda dyfodiad Radio Cymru yn 1979 dechreuwyd rhoi sylwebaeth fyw i gemau pêl-droed a rygbi. Ac yna daeth S4C â chwaraeon i'n cartrefi yn Gymraeg. Mewn darlith yn 1993, dyma Thomas Davies, cyn-bennaeth radio adran chwaraeon y BBC, yn honni'n bryfoclyd: 'Mae chwaraeon wedi gwneud mwy i'r iaith Gymraeg na llenyddiaeth.'

Mae digon i'w drafod yn yr erthygl. Prynwch HanesByw.



Y tîm o'r Adran Chwaraeon – yn gynhyrchwyr a sylwebwyr – fu'n benna cyfrifol am ddarparu'r arlwy o fyd y campau yn y Gymraeg ar S4C – gyda'r bos, y Pennaeth Onllwyn Brace, yn y cefn ar y dde

# O DAN YR WYNEB

**Martin Huws sy'n holi Alwyn Pritchard am ei gasgliad cynta o gerddi ac emynau, *Plas Pwll a Cherddi Eraill*.**

**O ble rydych chi'n dod?**
Rwyf yn enedigol o bentref Efailnewydd ger Pwllheli. Mae fy ngwreiddiau'n ddwfn yng ngwlad Llŷn. Gweler isod englynion Alan Llwyd i'm cyfarch i ar achlysur lawnsio *Plas Pwll a Cherddi Eraill*



**Ble rydych chi'n byw?**
Ym Mhwllheli erbyn hyn dafliad carreg o'r traeth.

**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**
Bûm yn athro ysgol gynradd, gan newid gyrfa nes ymlaen a mentro i'r byd ariannol fel ymgynghorydd ariannol nes imi ymddeol.

**Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?**
A bod yn onest, roeddwn i'n freuddwydiol fel disgybl, yn ddiog hefyd. Nid oeddwn i'n athro deheuig iawn chwaith, wastad eisiau rhedeg busnes.

Mae'n rhaid imi ddweud fy mod i wedi mwynhau bod yn ymgynghorydd ariannol ar hyd y beit. Roedd codi'n y bore yn rhoi gwefr i mi fynd i'm gwaith. Finnau hefyd oedd piau'r cwmni, gyda staff bychan o ryw dri neu bedwar ac un neu ddau'n rhan-amser.

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?**
Yn y byd codi pwysau, gan i mi fod yn bencampwr Cymru sawl gwaith rhwng 1968 a 1978, mae'n debyg mai Ieuan Owen, Caernarfon, oedd y dylanwad cyntaf.

Yn y byd Cristnogol, y Parchedig Arthur Pritchard ddaeth â mi i ddechrau meddwl am dragwyddoldeb, ac i'm harwain i yn y man at Waredwr byw yn Iesu Grist.

Yn y byd cerdd dafod, mae'r rhai a ddylanwadodd arnaf i oll wedi eu henwi yn y gyfrol. Prynwch hi ar bob cyfrif.

Mi fûm yn troi mewn cylchoedd eraill hefyd ond dyna'r tri mwyaf, a'r pwysicaf un yw Efengyl Rhad Ras y'm galwyd iddi.

**O ble daeth y syniad cyn sgrifennu'r gyfrol? Faint o her oedd ei sgrifennu hi?**
I ateb y cwestiwn cyntaf, fy nghyfaill, y Prifardd Ieuan Wyn, ddywedodd rywbeth fel hyn: 'Mae'n bryd iti hel dy bethau ynghyd i gael cyfrol'. Roedd 'y pethau,' yr englynion a'r cywyddau ac ati, wedi eu sgwennu dros gyfnod o bron hanner canrif.

O ran yr ail gwestiwn, yr her oedd darganfod lle roedd y gwaith wedi ei gadw!

Bu'r Prifardd Alan Llwyd yn hynod o garedig hefo mi wrth gynnig golygu'r gyfrol. Roeddwn i wedi gwirioni ac mi dderbyniais ei gynnig yn llawen ac fe wnaeth waith penigamp. Prifardd, llenor, ac un o'r cymwynaswr mwyaf welodd Cymru erioed, dyna Alan.

**Beth yw arwyddocâd y teitl?**
*Plas Pwll* yw cerdd gyntaf y gyfrol, rhyw *vers libre gynganeddol* sy'n cyfeirio at y bwthyn tlawd lle maged fy nain yn un o wyth o blant. Wrth ymweld â'r lle, mi fyddaf i'n dychmygu eu bod yno'n deulu o hyd, er ei fod yn furddun ers y pumdegau. Llun *Plas Pwll* sydd ar glawr y gyfrol, wrth gwrs.

**Beth sy'n gwneud cerdd dda?**
Dychymyg byw a gallu'r bardd i dynnu ar dannau'r galon.

**Sut mae englyn yn dechrau, yn datblygu?**
Daw llinell olaf y cwpled cywydd yn gyntaf weithiau cyn dechrau'r paladr. Dro arall i'r gwrthwyneb. Mae'n rhaid wrth ryw reddf i gynganeddu. Wnaiff gwersi ar eu pennau eu hunain mo'r tro. Ond 'ceffyl da yw ewyllys' a'r amynedd i ddyfalbarhau gyda'r grefft.


**Sut mae emyn yn dechrau, yn datblygu?**
Heb os, wrth i adnodau oleuo gwirioneddau ysgrythurol a diwinyddol. Dyna'r elfennau i mi ond yr ysgogiad pennaf ydi cariad at yr Arglwydd Iesu Grist. Heb hynny, fydd yna ddim siâp ar bethau.

**Beth oedd proses cynllunio'r casgliad? Beth oedd y mwynhad mwya a'r her fwya?**
Fel y soniais i'n barod, roedd y broses gynllunio wedi dechrau ers degawdau. Cywain y cyfan i'r 'gadlas' oedd yr her fwyaf, os her hefyd, gan i mi gael mwynhad mawr wrth ddod â'r cyfan at ei gilydd.

**Fyddai'n deg dweud eich bod yn fardd gwlad? Pa mor bwysig yw eich cynefin?**
Os mai'r diffiniad o fardd gwlad ydi un nad yw'n Brifardd nac yn amlwg ar *Y Talwrn*, rwy'n fwy na pharod, ac yn falch, o gael fy ngalw'n fardd gwlad.

Cynefin? Mae'n hollbwysig a phe bai gwaharddiad ar i mi deithio o wlad Llŷn, ni fyddai ots mawr gennyf i. Dim ots o gwbl, a dweud y gwir.

**Faint o her oedd hunangyhoeddi?**
Wrth hunangyhoeddi, rhaid cofio mai chi eich hunan sy'n talu bil yr argraffdy am yr holl gyflenwad. Rhaid penderfynu ar y niferoedd i'w hargraffu, yn ôl y pris a'r amcan gwerthiant, a oes lluniau i fod yn y gyfrol ac os oes, pa rai?




Rhaid cofio hefyd mai'r hunangyhoeddwr sy'n gyfrifol am y marchnata ond doeddwn i ddim yn swil o farchnata gan fy mod i wedi arfer â hynny drwy gydol fy nyddiau fel ymgynghorydd ariannol.

**Oes gennych chi rwtîn sgrifennu?**
Gyda'r nos yn bennaf ond yn aml yn 'meddwl' yn y prynhawn nes y daw 'darfod y myfyrdod mawr,' chwadl Beirdd yr Uchelwyr.

**Beth yw eich barn am stad barddoniaeth Gymraeg?**
Rhyfeddol, a dweud y gwir, gyda'r holl ddosbarthiadau cynganeddu drwy'r wlad ac ar *zoom* ac ati. Roedd chwe bardd yn deilwng o'r Gadair yn y Genedlaethol eleni. Gwych.

**Pwy yw eich hoff fardd? Pam?**
Os oes rhaid i mi enwi un, Alan Llwyd yw hwnnw. Trefnais i Twm Morys draddodi darlith ar Alan yn Eisteddfod Boduan ar y testun, 'Prifardd y Prifeirdd'. Yn fy marn i, dyna'n sicr ydi Alan. Ac fe ddangoswyd y teitl hwnnw'n fawr ac yn amlwg uwch y llwyfan wrth i Twm draddodi'r ddarlith ardderchog am ei gyfaill, y Prifardd Alan Llwyd. Roeddwn i mor falch o gael trefnu'r cyfan am iddo fod yn ddylanwad oes arnaf i. Mae mwy am hyn yn y gyfrol.

**Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i fardd ifanc?**
Darllen a darllen a darllen. Dadansoddi cerddi'r meistri, dod i adnabod y cynganeddion a mynychu gwersi, a chofio mai 'Ystâd bardd, astudio byd' sydd piau hi, a gall y byd hwnnw fod wrth eich traed.

**Beth sy' ar y gweill?**
Rwyn dal i sgwennu cerdd dafod. Ac mae rhyw awydd weithiau, rhyw hen hoen sy'n cyniwair o bryd i'w gilydd, yn gwneud i mi feddwl am droi at sgwennu drama. Wn i ddim a ddaw i hynny.

**Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd.**
Gan fy mod i'n hoffi popeth, y lleoliad a'r cwmni sy'n bwysig, gyda fy ngwraig Ann fel arfer neu gydag 'enaid hoff cytûn'.

Parhad tudalen 7 >

## O DAN YR WYNEB (Parhad)

Rhaid cyfaddef fy mod i wedi mwynhau prydau lawer ar draeth Porthor eleni, yn y caffi bach sydd wrth odrau'r allt. Mae gwahanol fwytai braf o gwmpas Aberdaron yn ardderchog hefyd,

**Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?**
Cerdded bryniau Llŷn neu lwybrau'r arfordir, darllen ac ysgrifennu, wrth gwrs. Mynychu ambell i ddarlith dda.

Dolen Gwales: https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781036926014&tsid=3
*Plas Pwll a Cherddi Eraill*, Alwyn Pritchard, £10

**Englynion y Prifardd Alan Llwyd i gyfarch Alwyn ar achlysur lawnsio ei gyfrol *Plas Pwll a Cherddi Eraill:***

Iaith Llŷn a'i thraethellau hi yw dy iaith;
iaith y don yn torri;
iaith yr awel a'r heli,
iaith Llŷn yn dy englyn di.

Dy ddiwylliant a ddeilliodd ohoni;
o'i henaid y tarddodd
dy enaid, ac estynnodd
awen yr hil iti'n rhodd.

I'r iaith hon y perthyni; hi yw'r iaith
yr hiraethaist ynddi
erioed; pob peth y credi
ynddo sydd o'i herwydd hi.

Cristion wyt: creaist o'n hiaith dy emyn;
creu dameg o'n mamiaith.
nid yw amau'n gydymaith
i ti pan ei di ar daith.

Dy ffydd sy'n ddihysbydd hael; mae, er gwawd,
mor gadarn ei gafael:
oherwydd dy ffydd ddi-ffael
Duw nid ydyw'n dy adael.

Ddoe dy Lŷn a ddadlenni yn dy waith;
dydd nad yw a gofi,
ond iaith ddoe sy'n goroesi,
iaith Llŷn yn dy emyn di.



Y gwesteion yn Lansiad y Llyfr

# EFAIL ISAF

*Gohebydd Lleol: Geraint Rees*

**Llongyfarchiadau Gwresog**
Ers rhai blynyddoedd mae hi wedi bod yn gyffrous dilyn datblygiad gyrfaoedd rygbi Steff a Ioan Emanuel. Ym mis Tachwedd cafodd Ioan Emanuel ei gap cyntaf i dim Caerfaddon yn chwarae yn erbyn Caerloyw yng nghystadleuaeth y Gwpan. Prop yw Ioan sydd ar fenthyg gyda Rygbi Caerdydd am y tymor hwn. Dychwelodd i Gaerfaddon dros dro i hyfforddi am gystadleuaeth y gwpan. Noson arbennig iawn i'r teulu cyfan. Cawn weld beth ddaw nesaf.







**Geni Macsen Dewi**
Braf oedd croesawu Macsen Dewi i'r byd ar Hyfdref 26ain i Carwyn a Jade, y Beddau. Mae Macsen yn ŵyr i Bethan ac Alun Roberts, Parc Nant Celyn. Amser yn unig a ddengys os mai telynor neu brop pen tynn fydd Macsen Dewi. Caiff fywyd dedwydd iawn os all lwyddo i fod yn delynor rheng flaen.



**Salwch**
Dymunwn yn dda i rai o selogion y pentref sydd wedi bod yn ddiolchgar i'r Gwasanaeth Iechyd am eu gofal yn ddiweddar. Meddyliwn am Enfys Hughes, Carey Williams ac Eirian Rees.

**Nadolig y Tabernacl**
Rhagfyr 7 Bore Sul gyda'r Parchedig Robin Samuel
Rhagfyr 14 Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul a'r Twmiaid gyda pharti Nadolig gyda Sion Corn i ddilyn
Rhagfyr 17 – Sesiwn creu llusernau Nadolig
21 Cwrdd Nadolig y Gynulleidfa: Gwahoddir pobl i ddod ag eitemau a chyfraniadau i'r oedfa bore – cerddi, caneuon, neu stori i'n helpu i baratoi at y Nadolig
Rhagfyr 22 am 5 o'r gloch – Canu Carolau o amgylch Efail Isaf
Noswyl y Nadolig am 5 o'r gloch - y dathliad teuluol arferol cyn ymweliad Sion Corn




**Casgliadau Elusennol y Nadolig**
Mae'r berthynas rhwng y pentref a'r capel yn arbennig o ran Gwaith dyngarol. Mae'n adeg casglu ar gyfer y Nadolig unwaith eto, er mwyn dod ag ychydig o gysur a llawenydd y Nadolig i bobl sy'n wynebu anawsterau a phroblemau dyrys. Byddwn yn casglu danteithion Nadoligaidd a nwyddau hylendid i'w dosbarthu i loches Cymorth i Ferched a hosteli ar gyfer pobl ddigartref yn yr ardal. Bydd y capel ar agor bob bore Iau a bore Sadwrn, 10-12, yn ôl yr arfer, i dderbyn rhoddion, ac yn ystod yr oedfa ar foreau Sul. Byddwn hefyd yn casglu rhoddion ariannol er mwyn rhoi 40 o docynnau gwerth £25 i bobl ifanc sy'n gadael gofal, drwy gyd-weithrediad â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a chyfraniad i hyrwyddo dathliadau Nadolig mewn 5 hostel. Bore Sadwrn, Rhagfyr 20 ydy'r dyddiad cau, er mwyn sicrhau digon o amser i ddosbarthu popeth erbyn y Nadolig. Fe wyddom y bydd eich ymateb yn rhyfeddol o hael, fel arfer, a diolch yn fawr i chi am hynny.

# PONTYPRIDD

**Gohebydd y Mis: Dilys Davies**

**Merched y Wawr**
Cynhaliwyd Cwis Hwyl Cenedlaethol Merched y Wawr nos Wener Tachwedd 7fed. Daeth 10 tîm ynghyd o'r De-Ddwyrain i Glwb y Bont ac er fawr syndod i dîm Cangen Pontypridd fe ddaethon nhw yn fuddugol - ond yn ogystal â hynny - fe ddaeth Cangen Pontypridd yn fuddugol yn genedlaethol!! Pluen yng nghap Rhanbarth y De Ddwyrain. (Llun tudalen 1)

Cafodd Cangen Pontypridd noson hyfryd yng nghwmni rhai o aelodau y gangen wrth iddynt ddwyn i gof ei hoff leoedd - Diolch i Margaret Francis, Sian Elin Jones a Jayne Rees am ein diddanu.

Bydd cyfarfod nesaf Cangen Pontypridd Nos Iau Rhagfyr 11eg am 7:30 yng Nghlwb y Bont a bydd Huw Davies yn dod i siarad â ni am un o fenywod mwyaf dylanwadol Pontypridd.

Bydd cyfarfod mis Ionawr ar Ionawr 8fed pan fydd Côr y Dysgwyr dan ofal Elwyn Hughes yn dod i'n diddanu.

**Dathlu**
Cyfarchion penblwydd arbennig i Siân Ebbsworth Graigwen - gobeithio bo ti wedi cael dathliad wrth dy fodd.

**Gig**
Roedd hi'n noson arbennig yng Nghlwb y Bont Nos Sadwrn Tachwedd 8fed yng nghwmni Catsgam â Mojo - braf iawn gweld cymaint o bobl wedi dod i glywed y ddau grŵp gwych hyn. Noson fythgofiadwy i bawb



Mojo (uchod) a Catsgam



**Siaradwyr Newydd**
Mae bore coffi yn yr Amgueddfa ym Mhontypridd bob bore Iau o 10:30 i 11:30. Mae croeso gwresog i unrhyw un ymuno - coffi a sgwrs â digon o chwerthin. Mae gan Glwb y Bont sesiwn i Siaradwyr Newydd nos Iau 1af y mis am 8:00 y.h.

**Clwb Llyfrau**
Fe fydd ein cyfarfod olaf eleni am 10:30yb yn Llyfrgell Pontypridd ar Rhagfyr 17eg.

Bydd cyfarfod cyntaf 2026 ar Ionawr 14eg, a bydd yn trafod nofel Caryl Lewis, Bitter Honey. Croeso mawr i aelodau Newydd.

**Cydymdeimlad**
Rydym yn estyn ein cydymdeimlad dwysaf i Menna Lewis a'i theulu gan iddi golli ei brawd yn frawychus o sydyn ar ddechrau'r mis.

**Llanast**
Nos Lun Tach 24ain yn YMa bu Theatr Bara Caws yn perfformio Llanast cyfieithiad Gareth Miles o'r ddrama Ffrangeg Le Dieu du Carnage gan Yasmina Reza. Roedd y theatr yn llawn ac yn amlwg bu'r gynulleidfa yn mwynhau gan fod sŵn y chwerthin yn fyddarol. Noson ardderchog arall.

**Clwb y Bont**
Cofiwch am gwis misol Clwb y Bont ar nos Iau olaf y mis yng nghwmni Aled Illtyd a mae cwis mawr diwedd y flwyddyn ar Nos Sul Rhagfyr 21ain am 8:00y.h

## Colli Gwilym Roberts

Roedd colli un o gewri Caerdydd yn siom i lawer o bobl yn yr ardal. Ymhlith ei gymwynasau di-ri dros yr iaith Gymraeg bu Gwilym yn gefn i Gylch Meithrin Ffynnon Taf ac yn gefnogwr brwd o Tafod Elái.



Myrddin ap Dafydd a Gwilym Roberts yn trafod ei lyfr yn Eisteddfod Pontypridd 2024

Bydd llawer o griw y saithdegau a'r wythdegau yn cofio ei frwdfrydedd yn yr Aelwyd yng Nghaerdydd ac yng Ngwersylloedd yr Urdd. Yna bu'n weithgar yn dysgu Cymraeg i Oedolion ac yn hybu'r Gymraeg ym Mhatagonia.


—-

Heddiw mae tywyllwch di ben draw
Lle bu golau llachar unwaith yn disgleirio
Un o gewri ein cenedl wedi'n gadael
A Chymru yn dlotach hebddo.

Colin Murphy, Pontyclun. Cyn ddisgybl Ysgol Gynradd Trelái 1960au.

25/11/2025

## Lansio Llyfr




Cyfrol deyrnged i'r awdur, dramodydd, ymgyrchydd a'r Comiwnydd dylanwadol Gareth Miles yw O'r Gwylltio, Gweithredu. Ceir ysgrifau coffa personol gan deulu, ffrindiau a chydweithwyr a chyd-ymgyrchwyr agos, ysgrifau ar ei waith, a dadansoddiad o'i gyfraniad i lenyddiaeth a gwleidyddiaeth Cymru. Ceir hefyd gerddi coffa, ambell ddarn gan Gareth ei hun, a deunydd gweledol arwyddocaol.

Fedrwch chi ddim darllen gwaith Gareth Miles heb ymateb iddo - naill ai drwy anghytuno yn chwyrn, neu gael eich tanio. Holl fyrdwn ei waith oedd peri i'w ddarllenwyr deimlo yn anghyfforddus ac ansicr; siglo'r sylfeini er mwyn peri inni feddwl...

Ef oedd un o benseiri polisi di-drais Cymdeithas yr Iaith. Heriodd apartheid o oed cynnar iawn gan roi persbectif byd eang i wleidyddiaeth Cymru. Yn wladgarwr, ond yn Gomiwnydd, yn agnostig ond efo cyfraniad diwinyddol pwysig, roedd Gareth wastad yn torri ei gŵys ei hun. Ysbrydolodd ei nofelau a'i ddramâu nifer o awduron ifanc, a bu'n hael ei gefnogaeth iddynt. Uwchlaw popeth, roedd yn gwmni difyr, yn dad, gŵr a brawd annwyl iawn. Dyma gyfrol sydd yn portreadu gwahanol agweddau o'r Cymro tanbaid hwn.

**Dathlu Gareth Miles.**
**Gwasg Y Lolfa. £12.95.**

# Bethlehem Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**

**Mis Rhagfyr:**
7 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
14 – Oedfa "9 Llith a Charol" (am 5:00 p.m.)
21 – Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul
25 – Oedfa Bore'r Nadolig (am 10:00 a.m.)
28 – Oedfa dan ofal Ian Hughes
**Mis Ionawr 2026:**
4 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
11 – Plygain (am 5:00 p.m.)
18 – Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Wyn Samuel
25 – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones

---oooOOOooo---

Beth yw'r pethau sy'n cael eu hystyried fel "traddodiadau'r Nadolig" yn eich cartrefi chi tybed?

Oes 'na arferion teuluol yr ydych yn eu hymarfer bob Nadolig?

Oes yna bethau y mae'n rhaid i chwi eu dilyn yn ddeddfol er sicrhau bod "Dolig yn Dolig" yn eich ty chi?

Petaech yn edrych trwy ol-rifynnau "Tafod Elai", fe welech fy mod eisoes wedi cyffwrdd a rhai o hanesion y Nadolig ym Methlehem, Palesteina (Rhagfyr 2019), ac yn yr Wcrain (Rhagfyr2022).

Mae cip ar y we yn gallu rhoi ambell syniad i ni o rai o "draddodiadau Nadoligaidd" mewn mannau eraill o'r byd.

Dewch am dro cyflym hefo fi rhag ofn y bydd ambell awgrym ychwanegol a fydd o ddiddordeb i chwi!

Mae'n debyg fod 'na chwant mawr am KFC, ia "*Kentucky Fried Chicken*" yn Siapan ar fore'r Nadolig.

Yno, byddant yn heidio wrth eu miloedd i brynu pwcedeidiau o'r cyw iar o gegin y Colonel Harland Sanders, a ddechreuodd y busnes yn Corbin, Kentucky yn ystod y Dirwasgiad Mawr (er mai yn Salt Lake City yr agorwyd y KFC cyntaf yn 1952).

Rhaid cofio nad ydi dydd Nadolig yn ddydd gwyl yn Siapan, ac arferiad a ddechreuodd yn ystod 70au'r ganrif ddiwetha ydi hwn!

Yn Norwy, mae'n debyg bod y teuluoedd yn cuddi eu mopiau a'u hysgubau ar noswaith Nadolig er cadw'r ysbrydion drwg a'r gwrachod o'r gwmniaeth. Credant mai ar y noswaith arbennig honno y bydd y giwed yma yn chwilio am eu hysgubau i'w marchogaeth drwy'r awyr!

Tydi pobl y Weriniaeth Tsiec ddim yn malio dim am hen ysbrydion na gwrachod, ond gochelwch rhag i ddrws y tŷ agor wrth i gerdded heibio a gweld par o esgidiau yn hedfan heibio'ch pen! Dyna mae'n debyg beth sy'n digwydd yno, a merched di-briod sy'n dilyn yr arfer fel math o ddefod i weld a fyddant yn cael cariad yn ystod y flwyddyn sydd ar ddechrau!



Byddant yn sefyll wrth ddrws agored y tŷ gyda'i cefn at y stryd, gan daflu eu hesgidiau dros eu hysgwydd. Os bydd yr esgidiau yn glanio gyda'u blaen tuag at drws, byddant yn siwr o briodas o fewn 12 mis!

Ym Mhortiwgal, cofio am y meirw yw'r arfer, ac mae'n draddodiad ("*alminhas a penar*" [enaid y meirw]) eu bod yn cynnwys lle wrth y bwrdd ar noswyl Nadolig ac ar ddydd Nadolig er cof am yr ymadawedigion. Bydd briwsion yn cael ei adael gan ambell un fel rhan o'r weithred. Ystyrir y cyfan yn ffordd gytwys o gofio ac anrhydeddu'r meirwon, ac hefyd yn ffordd o ddeisyf lwc dda am y flwyddyn i ddod.

Pe baech yn byw yn Caracas, Venezuela, byddech yn "troed-rowlio" i'r capel neu eglwys ar fore'r Nadolig, ac i hwyluso hynny, bydd strydoedd y ddinas ar gau i draffig rhwng Rhagfyr y 16eg a'r 24ain.

Ar yr Ynys Las (Greenland), byddai'ch cinio Nadolig yn cynnwys "*mattak*", sef croen morfil gyda'r bloneg yn dal yn sownd ynddo, a "*kiviak*", aderyn môr bychan wedi ei eplesu mewn croen morlo.

Mae traddodiad yn yr Eidal fod La Befana*, gwraig debyg i wrach, yn danfon anrhegion a danteithion i blant da ar Ionawr y 5ed (noson cyn yr Ystwyll). Caiff plant drwg lwmpyn o lo ganddi! Yn ol y sôn, hen wraig a gollodd ei ffordd wrth fynd ag anrheg i'r preseb i'r Baban Iesu oedd Befana, ac ar Ionawr y 5ed bydd y teuluoedd yn hongian eu sanau wrth y simdda yn y gobaith y byddant yn llawn danteithion erbyn y bore canlynol.

Yn yr Iseldiroedd ac yn Fflandrys, dethlir ymweliad Sinterklaas (tebyg i Sion Corn) ar Ragfyr y 6ed, ac mae plant yno hefyd yn gadael eu hesgidiau iddo eu llenwi ar y noson cynt. Eto bydd plant da yn derbyn cyflenwad o siocled, orennau a bisgedi, tra bydd y plant drwg yn cael esgidiau llawn brigau! Mae gan Sinterklaas, fel Sion Corn, gynorthwywyr yn ei helpu wrth ei waith.

'Rwyn siwr bod nifer helaeth o ychwanegiadau y gellid fod wedi eu cynnwys yn y rhestr yma o draddodiadau'r Nadolig mewn gwleidydd ar draws y byd.

Ond gadewch i ni ddychwelyd 'nol i Gymru i gloi'r erthygl yma.

Mae gennyf yn fy meddiant gyfrol XLIII (wedi ei rhwymo) o "Cymru'r Plant" (1934), ac yn rhifyn Rhagfyr, y flwyddyn honno, mae 'na stori dan y teitl "Nadolig y Tylwyth Teg".

(*Yn ddiddorol ddigon 'roedd hanes La Befana yn rhifyn mis Ionawr o'r cylchgrawn dan y teitl "*Santa Clos" Plant yr Eidal*.)

"*Synnais un nos cyn Nadolig a minnau yn mynd adref o de parti, i weld golau bach wrth wraidd hen dderwen fawr. A beth feddyliech chi oedd yno?*

*Pump o dylwyth teg, ac un arall tipyn bach yn fwy, ac ef, yn amlwg ef oedd eu pennaeth. A dyna lle'r oedd ef yn dweud wrth y pump arall beth i'w wneud.*

*"Ein gwaith ni", ebr ef wrthynt, "yw rhoi Nadolig llawen i bawb."*

*"Ie, ie" meddai'r tylwyth oll gyda'i gilydd, gan neidio a gweiddi a thaflu eu capiau coch i'r awyr.*

*"Beth a fynni di i ni ei wneud, O bennaeth?" gofynnai'r cyntaf.*

*"Dos di i fwthyn Cadi Begws bore yfory am wyth. Mae to gwellt ei bwthyn yn gollwng a mae ei matsus wedi gwlychu, ac os nad ei di yno bore yfory, ni all hi gwcio ei chinio Nadolig."*

*"Af yn siwr" ebryntau gan roi ei fys ar ei gap.*

*"A minnau syr" ebr yr ail ohonynt.*

*"Rwyt ti'n adnabod yr hen Wmffre Huws, wrth gwrs. Hen gybydd ydyw, er bod ganddo ddigon o bres, ac yr wy'n siwr mai ceiniog yn unig a rydd i'r hen wraig weddw yn y ty nesaf. Dere di ato bore yfory, a phan fydd ar roi'r geiniog i'r wraig weddw, tynn ef yn dawel fach o'i law, a chan dynnu hanner coron o'i boced, dyro ef yn ei law yn lle'r geiniog.*

*"Fy nhro i yn awr", meddai'r trydydd, gan gamu ymlaen.*

*"Heno y bydd dy waith di. Y mae Huw a Beti yn methu cysgu oherwydd hiraeth am eu tad a'u mam sydd ymhell ar y môr. Ac y mae eu modryb yn gas iawn wrthynt. Dos di atynt, crea freuddwydion hapus yn eu meddwl am eu mam a'u tad yn dod yn ol; a cheisia doddi calon galed yr hen fodryb er mwyn i Huw a Beti gael Nadolig hapus yfory."*

*"Bydd toddi calon y fodryb yn anodd iawn" ebr y trydydd tylwyth teg, ond ni wnaeth y pennaeth ond edrych unwaith arno, oherwydd ni bydd yr un tylwyth teg fyth yn cwyno.*

*"A thithau," ebr y pennaeth gan droi at y pedwerydd, "dos di chwarae gydag Owain Ty'n pant. Mi wyddost ei fod wedi torri ei goes, a'i fod yn methu chwarae a phlant eraill y pentref – gwna'r creadur bach yn hapus."*

*"A chroeso" ebr yntau.*

*"Yn awr, y mae gan bawb ei waith i'w wneud, onid oes," gofynnai'r pennaeth.*

*"Nac oes, syr," ebr y pumed tylwyth mewn llais gwylaidd, "ni chefais i ddim gwaith o gwbl."*

*"Aros ti funud, ynte" ebr y pennaeth, "y mae gen i waith penigamp i ti. Y mae plant ieuengaf adran Pentrepant o Urdd Gobaith Cymru yn cael parti Nadolig tan gamp ac yn mwynhau eu hunain yn ardderchog, ond mae'r cloc yn mynd llawer yn rhy fuan iddynt. Dos yno, a stopia'r cloc am hanner awr, er mwyn y plant!"*

*Ac yna trodd at y pump a dweud:*

*"Dyna chwi, mas a chwi"*

*"Ond, syr," gofynnai'r tylwyth teg cyntaf, "beth ydych chwi am ei wneud?"*

*"Y fi?" gofynnai'r pennaeth tan wenu, "Cyn belled a bod yna un galon drom yn y byd ar ddydd Nadolig, fe fydd yna ddigon o waith i mi ei wneud."*

A dyna fydd ein tasg ninnau dros yr Wyl yn ogystal!

---oooOOOooo---

Nadolig Llawen iawn i holl ddarllenwyr "Tafod Elái" oddiwrth bobl Bethlehem, Gwaelod-y-garth.

# Ysgol Evan James




**Dathliadau 40**
Cawsom amser arbennig yn lansio dathliadau pen-blwydd yr ysgol yn 40 wrth ffurfio 40 anferth ar iard yr ysgol gyda phob un disgybl yn cymryd rhan. Derbyniodd pawb crys-t 40 wedi cynllunio gan blant yr ysgol a chafwyd diwrnod o hwyl gyda phartïon a gwobrau trwy gydol y dydd. Edrychwn ymlaen at fwy o ddathliadau!



**Diwrnod Shwman Su'mae**
Dathlon ni diwrnod Shwmae Su'mae wrth wisgo coch, gwyn a gwyrdd i'r ysgol.

**Pêl-droed yr Urdd**
Cystadlodd tîm yr ysgol yng nghystadleuaeth pêl droed yr Urdd. Braf oedd cael gweld blwyddyn 5 a 6 yn cystadlu'n frwd. Rydyn ni'n falch iawn ohonynt.

**Eisteddfod y Cymoedd**
Ymunodd criw o blant blwyddyn 5 a 6 a chôr Ysgolion Pontypridd i gystadlu yn Eisteddfod y Cymoedd. Roedd e'n brofiad arbennig i'n disgyblion a chanodd y côr yn fendigedig.

**Calan Gaeaf**
Mwynhaodd plant ifancaf yr ysgol prynhawn o gref Calan Gaeaf cyn i blant hynaf yr ysgol dathlu gyda noson ffilm â gwisg ffansi. Dyna ddathliadau dychrynllyd!

**Gwyl Morfydd Owen**
Diolch yn fawr iawn i'r holl blant a theuluoedd a ymunodd â ni yng Nghapel y Bont ar gyfer perfformiad Côr Ysgolion Pontypridd. Roedd y plant yn wych!

**Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd**
I gefnogi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd gwisgodd y disgyblion yn felyn neu'n wyrdd. Dysgon nhw am ffyrdd gwahanol o gefnogi meddyliau ifanc trwy gydol y dydd.

**Bore Coffi Macmillan**
Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'n rhieni a'n disgyblion am gefnogi ein Bore Coffi Macmillan. Diolch i'ch haelioni a'ch caredigrwydd, fe wnaethom godi £385 ar gyfer yr elusen.







# Dathlu lansio drama gerdd newydd Cwmni Theatr yr Urdd



Caryl Parry Jones, Matthew Rhys ac enillydd Gwobr Matthew Rhys, Ffred Hayes

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Plant bu i'r actor adnabyddus Matthew Rhys ymuno â'r gantores a'r gyfansoddwraig Caryl Parry Jones i lansio *Calon*, drama gerdd newydd Cwmni Theatr yr Urdd mewn cydweithrediad â Theatr Cymru, mewn digwyddiad arbennig yn Amgueddfa Sain Ffagan.

O flaen cynulleidfa eiddgar bu i Matthew rannu ei brofiadau cynnar gyda'r Urdd ynghyd â holi Caryl am y broses o greu'r ddrama gerdd gyfoes, fydd yn llawn dop o'r caneuon cyfarwydd a hynod boblogaidd ysgrifennwyd ganddi dros 40 mlynedd, gan gynnwys *Shampw*, *Space Invaders*, a'r anthem eiconig *Calon*.




*Calon* fydd sioe fwyaf Cwmni Theatr yr Urdd ar ei newydd wedd, ers ail-lansio yn ystod blwyddyn canmlwyddiant y Mudiad yn 2022 diolch i gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir i gast a chriw o dros 100 o bobl ifanc rhwng 15 a 25 oed berfformio a gwireddu'r sioe yn Theatr Donald Gordon, Canolfan Mileniwm Cymru fis Awst 2026. Mae'r alwad bellach ar agor i bobl ifanc gofrestru eu diddordeb.

Mae'r cynhyrchiad yn cael ei lwyfannu mewn partneriaeth â Theatr Cymru, gan ddod ag arbenigedd creadigol a chred gytûn i feithrin talent ifanc ledled Cymru. Fel rhan o'r bartneriaeth arbennig hon, bydd Rhian Blythe – Cyfarwyddwr Cyswllt Theatr Cymru – yn cyfarwyddo *Calon*, gan ddod â'i phrofiad helaeth fel cyfarwyddwr ac actor i fwy na 100 o ieuenctid o bob cwr o Gymru.

Mae'r Urdd yn croesawu ceisiadau gan unigolion 15-25 oed i ymuno â'r cast neu'r tîm cynhyrchu drwy'r wefan (urdd.cymru/calon), ac mae tocynnau i'r perfformiadau bellach ar werth.

# LLANTRISANT PONTYCLUN Y GROESFAEN

Gohebydd y Mis: Margaret White

**Newyddion da**
Hyfryd ydy deall bod Côr Tadau Trisant yn recordio cân Nadolig ar gyfer Dechrau Canu Dechrau Canmol. Mae'r darn yn drefniant arbennig i'r Côr, o gân fodern Gymraeg boblogaidd. Bydd yn cael ei chlywed ar y rhaglen dros gyfnod yr Ŵyl. Edrych ymlaen!

**Pontyclun**
Mae sawl peth wedi bod yn digwydd ym Mhontyclun yn yr wythnosau diwethaf a'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau yn codi arian tuag at achosion da. Cofiwch am Ras Santa ar y 7fed o Ragfyr. Bydd yn cychwyn o'r clwb rygbi am 10 o'r gloch. Bydd sawl cyngerdd yn cael eu cynnal ,- 9fed yn Eglwys St. John ym Meisgyn, 10fed yn Eglwys St. Paul ac ar y 16eg yn y Clwb Rygbi bydd Côr Tadau Trisant yn perfformio. Ceir noson o adloniant yn y Clwb Athletic gyda Jackie a John Spiers ar yr 17eg. Mae'n bwysig cynnig cyfleoedd i bawb yn tydy, ac mae Cafê 50 yn gwneud hynny drwy gynnal nosweithiau sinema ar 20fed a'r 27ain o Ragfyr a'r 3ydd o Ionawr ar gyfer pobl gyda dementia a'u teuluoedd.

**Merched Y Wawr Tonysguboriau**
Yn dilyn noson lwyddiannus gyda Chôr Dysgwyr Y Cymoedd, priodol iawn oedd cael Osian Rowlands, Prif Weithredwr Menter Iaith RhCT i'n cyfarfod ym mis Tachwedd.


*"Bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yn Rhondda Cynon Taf ac yn iaith fyw yn ein cymunedau"* yw nod y Fenter ac roedd yn agoriad llygad i ddod i wybod am yr holl weithgareddau a digwyddiadau gwahanol sy'n cael eu cynnal mewn sir mor eang, gyda dim ond 12.4% o'r boblogaeth yn siarad yr iaith yn ôl Cyfrifiad 2021.

Nid gwaith y Fenter Iaith yn unig yw hi i geisio goresgyn yr heriau a'r rhwystrau. Wyddoch chi fod y nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn Nhaf Elai yn byw yn ardal Pontyclun? Ond faint o Gymraeg ydych chi'n ei glywed ar strydoedd y dref? Mae'n hanfodol ein bod ni hefyd yn gwneud ein rhan!

Diolch Osian, rydym yn ffodus iawn o gael tîm mor frwdfrydig o dan eich arweiniad - mae pob 'cam bach' yn gam pwysig.

# Cofio Vaughan Hughes

Ar fore Sadwrn, y chweched o Ionawr, 2024, bu farw un o gymeriadau mawr Cymru. Yn newyddiadurwr, darlledwr, holwr, adolygydd a bardd, roedd Vaughan Hughes yn angerddol am Gymru, ei phobl a'i diwylliant – a doedd o ddim ofn tynnu blewyn o drwyn.




Cafodd ei eni a'i fagu ym Môn, ac roedd o'n dal i fod yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Llangefni pan ddechreuodd ysgrifennu ei golofnau cyntaf i bapur *Y Clorianydd*. Daeth ymhen amser yn wyneb cyfarwydd ar y teledu, yn cyflwyno *Y Dydd*, *Y Byd yn ei Le*, *Ffau'r Llewod* ac *O Vaughan i Fynwy* cyn troi ei law at gynhyrchu gyda Ffilmiau'r Bont.

Mae'r cofiant hwn yn cloriannu ei fywyd a'i waith, ac yn cynnwys darnau o'i waith nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi o'r blaen.

Medd ei ferch, Heledd Fychan, 'Dad ddylai fod wedi ysgrifennu'r gyfrol hon. Ro'n i a Mam wedi trio ei berswadio am flynyddoedd i wneud, gyda Mam hyd yn oed yn cael trefn ar ei holl bapurau i helpu'r broses. Ond er iddo ddweud ei fod am wneud, wnaeth o ddim, ac fel teulu, does dim geiriau i gyfleu pa mor ddiolchgar ydan ni fod Alun Ffred wedi ymgymryd â'r dasg.

'Mae'r gyfrol yn dweud stori Dad, ond drwy hynny, mae hi hefyd yn gofnod o newid mawr yn y wasg a darlledu yng Nghymru ynghyd â gwleidyddiaeth. Gobeithio y bydd darllenwyr y gyfrol yn mwynhau ei darllen gymaint ag y gwnaeth Dad fwynhau adrodd ar straeon, a rhoi ei farn, gydol ei yrfa.'

Cofio Vaughan Hughes.
Gwasg Carreg Gwalch. Pris £9.99

# GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Dawn Walters

**Sul y Cofio**
Cynhaliwyd gwasanaeth dan arweiniad Dawn Walters, Clerc y Cyngor Cymuned, ger y cofgolofn Parc y Welfare ar y cyd gyda capeli ac eglwysi'r pentref.



**Maes 3G**
Mae Adrian Dobbs, clwb rygbi Gilfach Goch, wedi bod yn brysur am sawl blwyddyn yn ceisio cael caniatâd Cyngor Sir Penybont i osod cae 3G ar safle'r hen cyrtiau tenis Parc y Welfare. Wedi'r caniatâd hir aros ddod ariannwyd y prosiect gan Walters Pennant a'r Cyngor Cymuned. Mae'r pentref yn hynod o falch.



**Pencampwyr Prydain Fawr**
Llongyfarchiadau i Esmay Walters ac Eve Harris ar eu llwyddiant unwaith eto yn y byd dawns.



YSGOL GYNRADD GYMRAEG AWEL TAF

**Dathlu**

Rydym ni wedi bod yn trafod a dathlu gwahaniaethau yn yr ysgol wrth ddathlu mis hanes pobl duon a chefnogi wythnos gwrth-fwlian. Cofiwch- Rydym ni'n wahanol, rydym ni'n werthfawr!



**Ffair Nadolig**

Diolch i Ffrindiau Awel Taf am drefnu Ffair Nadolig gwych eleni eto! Roedd yn hyfryd gweld cymuned Awel Taf yn mwynhau mewn awyrgylch Nadoligaidd arbennig!


**Rygbi**

Cafodd ein tîm rygbi fore bendigedig yng ngŵyl rygbi ysgolion y clwstwr- a llawer o lwyddiant! Maent yn edrych ymlaen at yr her nesaf.





# Ble oedd Taf-Elái?




Roedd yr hen Sir Forgannwg yn ymestyn o'r afon Llwchwr i'r afon Rhymni, o Gwmllynfell i Draethen, o Rhŵs i Benderyn. Y sir fwyaf poblog yng Nghymru. Roedd ganddo Gyngor Sir oedd yn gyfrifol am rhan fwyaf o'r ardal a nifer o Fwrdeistrefi megis y Rhondda, Merthyr, Abertawe a Chaerdydd.

Ar ddechrau'r 1970'au penderfynwyd newid y drefn a chael cynghorau sir a chynghorau dosbarth a throi y cynghorau plwyf yn gynghorau cymuned. Rhannwyd yr hen Forgannwg yn dair - Sir Gorllewin Morgannwg, Sir Morgannwg Ganol a Sir Caerdydd a'r Fro. Ym Morgannwg Ganol roedd chwe Cyngor Dosbarth - Ogwr, Rhondda, Cynon, Merthyr, Rhymni a Thaf-Elái. Cynhaliwyd etholiadau yn 1973 a daeth Cyngor Bwrdeistref Taf-Elái i fodolaeth yn 1974. Er fod y cyngor yn cael ei reoli gan y Blaid Lafur ar y cychwyn roedd carfan gref o gynghorwyr Plaid Cymru a Rhyddfrydwyr ar y Cyngor ac erbyn 1991 Plaid Cymru oedd y brif blaid.

Er fod llawer o deuluoedd yr ardal wedi colli'r iaith Gymraeg, yn y 1970'au daeth mewnlifiad newydd a fu'n gefn i drefniadau Eisteddfod yr Urdd Pontypridd 1973. Cychwynnwyd cymdeithasau Cymraeg newydd a ffurfiwyd corau gafodd lwyddiant cenedlaethol. Penderfynwyd cychwyn papur bro, Tafod Elái, yn 1985 ac yn nyddiau cynnar y papur gwelwyd agor Ysgolion Cymraeg newydd a llwyddiant arbennig wrth i'r ardal ennill Fedal Aur Clogau tair blynedd yn olynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Uchafbwynt dathlu Cymreigrwydd yr ardal oedd Eisteddfod yr Urdd Taf Elái yn 1991.

Wrth i'r cynghorau gael eu had-drefnu unwaith eto yn 1996 daeth Cyngor Taf-Elái i ben gyda'r rhan fwyf o'r ardal yn mynd yn rhan o Rhondda Cynon Taf ond aeth Cymuned Pentyrch, yn cynnwys Creigiau, Llanilltern a Gwaelod y Garth i ymuno â Chaerdydd.

Erbyn hyn, prin yw'r cyrff sy'n defnyddio enw'r ardal - Banc Bwyd Taf Elái, Clwstwr Iechyd Taf Elái, Grŵp Cerddwyr Taf Elái, Fferm Wynt Taf Elái a Thafod Elái!



# Archifydd Sy'n Codi Pwysau a Chodi Gwên

Cawsom wledd amheuthun yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Cylch Cinio, ac nid cyfeiriad at y bwyd yn unig yw dweud hynny. Roedd y modd y cawsom ein diddanu a'n syfrdanu gan y gwestai yn brofiad i'w drysori, wrth i Sara Huws godi cwr y llen ar ei gyrfa ym maes treftadaeth a'r cyfryngau, ei diddordebau annisgwyl a'i hymgyrchoedd ar ran menywod dros wledydd Prydain. Llwyddodd i'n tywys i feysydd rhyfeddol o ddiddorol, a gwneud hynny mewn modd cartrefol, llawn ffraethineb, ond gyda sylw teilwng i themâu pwysig ac arwyddocaol.



*Sara Huws a Carys Tudor Williams, Llywydd y Cylch Cinio*

Fel 'Swyddog Ymgysylltu Dinesig' y caiff Sara ei chyflogi gan Brifysgol Caerdydd, ac mae ei gwaith bob dydd yn golygu rhannu gwybodaeth am gyfoeth y casgliadau a'r archifau sydd ym meddiant y Brifysgol. Yn wreiddiol o Bow Street, mae hi hefyd yn ymgynghorydd i'r llywodraeth ar faterion diwylliannol. Fel petai hynny ddim yn ddigon, mae wrthi'n gweithio ar ei doethuriaeth yn ymwneud ag ymgyrchoedd merched mewn cymdeithas.

Yn ei horiau hamdden mae'n codi pwysau ar lefel gystadleuol, yn rhedeg nosweithiau cabaret ac yn arwain grwpiau i alluogi merched maint-plus i fwynhau gweithgareddau awyr agored megis heicio, mynydda, nofio gwyllt, canwio ac anturio. Roedd camu i'r maes hwnnw yn gam mawr iddi gan ei bod ar un adeg yn cael pethau'n anodd oherwydd ei bod dros ei phwysau, ac wedi ei chyflyru i gredu bod maint yn rhwystr i rai rhag medru mwynhau gweithgareddau corfforol. Bu'n rhaid ymgyrchu'n ddygn i berswadio'r cwmnïau arbenigol i ddarparu meintiau mwy mewn dillad addas i herio'r tywydd, ond fe lwyddwyd, ac erbyn hyn mae dros 15,000 o ferched maint-plus yn rhan o'r rhwydwaith 'Every Body Outdoors' y bu Sara'n chwarae rhan mor allweddol yn ei sefydlu gydag eraill.

Roedd ymgyrchu ar ran menywod wedi bod yn rhan o'i chefndir cyn hynny, yn ystod ei chyfnod yn Llundain, gan iddi ddod i gredu nad oedd menywod yn cael eu portreadu yn haeddiannol mewn arddangosfeydd. Perswadiodd ei ffrind, Sarah Jackson, i'w helpu i newid pethau, a thros nos, bron, cafwyd dros 800 o ferched yn cynnig gwirfoddoli. O fewn dim, roedd yr 'East End Women's Museum' wedi ei chreu, yn dathlu bywydau lliwgar a thrawiadol amrywiaeth o wragedd yn yr ardal enwog honno. Ers ei sefydlu yn 2015 fe ddeil i fod yr unig amgueddfa o'i bath yn Lloegr.

Mawr yw ein diolch i Sara am noson mor gofiadwy. Os hoffech ymuno â ni yn y dyfodol, anfonwch air at cylch.cinio@gmail.com a chofiwch fod croeso cynnes i bawb.

Emlyn Davies

# Gwefan fro ar y gweill

Cymerodd tua 40 o siaradwyr Cymraeg ran mewn cyfres o sgyrsiau ar draws Rhondda Cynon Taf i glywed mwy am y syniad o sefydlu gwefan fro yn ein hardal.

Mae cwmni Golwg, fel rhan o'r prosiect Ymbweru Bro, yn awyddus i sefydlu'r wefan fro gyntaf yn Ne Dwyrain Cymru yn ardal Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliwyd y sgwrs gyntaf i drafod sefydlu gwefan fro i ardal Rhondda Cynon Taf ym Mhontypridd nôl ym mis Gorffennaf. Daeth dros 20 o bobl i Ganolfan Calon Taf ar noson gynnes yr haf i ymuno â'r sgwrs, gafodd ei arwain gan Lowri Jones, Pennaeth Datblygu a Phrosiectau Cwmni Golwg. Roedd Lowri wrth ei bodd gyda'r croeso gafodd hi gan gymuned Gymraeg Pontypridd, wedi teithio o ardal Llanbedr ar gyfer y noson.

Dros y mis diwethaf, mae sgyrsiau tebyg wedi digwydd yn Nhreorci ac yn Aberdâr o dan ofal Swyddog Prosiect Ymbweru Bro ardal RhCT, Rhian Hopkins. Fel y disgwylir, daeth ychydig llai o bobl allan ar nosweithiau gwlyb a thywyll mis Tachwedd. Er hyn roedd trafodaethau difyr yn The Lion, Treorci a 'Cynon Linc' Aberdâr ac mae na deimlad y gallai gwefan fro helpu'r Gymraeg i ffynnu yn y cymoedd.

Bydd cyfarfod ar-lein yn cael ei drefnu yn y flwyddyn newydd i drafod y camau nesaf a gwneud penderfyniadau allweddol. Er mwyn sicrhau llwyddiant gwefan fro, bydd angen gwirfoddolwyr. Bydd angen ffurfio criw llywio, sef tîm o olygyddion fydd yn gyfrifol am olygu a chyhoeddi straeon.

Bydd angen hefyd cyfranwyr sy' â diddordeb cyfrannu erthyglau, lluniau, fideos a blogiau byw yn weddol rheolaidd. Yn ogystal, bydd angen ysgogwyr sy'n annog eraill yn y gymuned i fynd ati i gyfrannu i'r wefan fro.

Bydd ebost gyda manylion am y cyfarfod ar-lein yn cael ei ddanfon at bawb ddaeth i un o'r sgyrsiau a phawb gwblhaodd yr holiadur am wefan fro. Os hoffech chi dderbyn gwybodaeth am y cyfarfod neu am ddatblygiadau'r wefan fro, cysylltwch â

rhianhopkins@golwg,cymru

Mae 15 gwefan fro yng Nghymru hyd yn hyn, gyda'r rhan fwyaf mewn ardaloedd gyda chanran uwch o siaradwyr Cymraeg.

Mae nifer o ardaloedd lle mae'r wefan fro a'r papur bro yn cydweithio'n llwyddiannus felly y gobaith ar gyfer 2026 yw sicrhau dyfodol papur bro Tafod Elái yn ardal Taf tra'n ychwanegu gwefan fro fydd yn cynnig newyddion lleol drwy gyfrwng Gymraeg fydd o ddiddordeb i gynulleidfa ehangach.

BRO Bro360 **bro.360.cymru**



Trafod Gwefan Bro ym Mhontypridd



Criw Treorci gyda Rhian Hopkins yn y canol




Trafod yn Aberdâr yn ddiweddar

# Colofn Blasus a Iachus

## Eluned Davies-Scott

## Beth Yw Blasau'r Nadolig Eleni?- Darllenwch Ymlaen….



Erbyn i chi ddarllen yr erthygl hon, mae'n debyg eich bod wedi cynllunio beth fyddwch chi'n ei goginio ar gyfer y Nadolig a fydd yn plesio pawb, ac sy'n hylaw. Ond peidiwch â phoeni os mae siopwr 'munud olaf' ydych gan fy mod wedi pori rhywfaint ar eich cyfer i chi gael 'blas' ar beth sy'n ffasiynol eleni. Bydd y rhan fwyaf ohonom yn cael ein temtio i brynu rhai o'r llu o fwydydd sydd ar gael mewn archfarchnadoedd i helpu i leihau'r amser a dreulir yn y gegin. Mae'r dewis yn anhygoel a'r silffoedd yn orlawn e.e. mae gan Morrisons dros 640 o gynhyrchion bwyd Nadoligaidd, gyda mwy na 340 ohonynt yn ychwanegiadau newydd sbon eleni; mae bwyd Nadolig Waitrose yn cynnwys 665 o gynhyrchion ac mae dros 260 o rai newydd yn Tesco.

Gyda chyllidebau cartrefi o dan bwysau o hyd, mae llawer o siopwyr yn chwilio am ffyrdd i ddathlu heb orwario yn ystod y tymor Nadoligaidd. Mae pôl diweddar gan YouGov yn datgelu sut mae pobl yn addasu eu dull o siopa bwyd Nadolig - gan gydbwyso gofal ariannol â'r awydd i gadw traddodiadau allweddol yn gyfan. Dim ond tua 6% sy'n dweud eu bod yn gwario mwy eleni, tra bod 55% yn aros yn gyson. Mae 27% yn lleihau eu gwario ac yn edrych am opsiynau cost is neu dewisiadau amgen.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal cwmnïau bwyd rhag ceisio ein denu i fynd ar sbri wrth siopa am fwydydd Nadolig. Mae archfarchnadoedd yn gwario llawer o arian ac amser ar ymchwil i ddarganfod beth fydd yn gwerthu. Amcangyfrif bydd £12 biliwn wedi'i wario ar hysbysebu'r Nadolig eleni, llawer ohono'n canolbwyntio ar eitemau bwyd. A yw hyn i gyd yn werth y gost enfawr hon? Wrth gwrs ei fod. Rhagwelir fod pob £1 a werir ar hysbysebu yn arwain at elw o £4.11. Eleni mae sawl tîm hysbysebu wedi defnyddio themâu o 'fforddiadwyedd' a 'chymuned', fel y gwelir ar y teledu: does dim dwywaith eich bod wedi gweld Dawn French fel tylwyth deg yr ŵyl a'r Grinch yn gwneud ei siopa Nadoligaidd yn anfoddog. Mae hysbyseb Nadolig Sainsbury's yn cynnwys y BFG ac, mewn partneriaeth â Comic Relief, mae'r archfarchnad hefyd yn dosbarthu dros bum miliwn o brydau bwyd i deuluoedd sy'n profi tlodi bwyd.

Mae brandiau bellach yn defnyddio 'dylanwadwyr cymdeithasol' ar gyfer eu ymgyrchoedd. Yn ôl pob golwg siocled Dubai, blasau pistachio, a phwdinau rym sbeislyd yw'r prif 'drendiau'. Os, fel fi, nad ydych chi'n ddilynwr unrhyw 'ddylanwadwr', heb sôn am wybod pwy ydyn nhw, byddaf yn eich goleuo am siocled Dubai - mae ganddo haen allanol o siocled llaeth neu dywyll ac mae wedi'i lenwi â chymysgedd o bast pistachio, tahini, a kadayif wedi'i dostio, (heb glywed am Kadayif? mae'n grwst o'r Dwyrain Canol a'r Balcanau sy'n edrych fel nwdls vermicelli).

Mae bwydydd creadigol ar gyfer eu rhannu a phori mewn ffasiwn eleni ac yn cynnwys torchau crwst sawrus a phlatiau Chartuerie. Beth am ddewis Burrata i'w Rhannu sy'n cynnwys cnau pistachio a syrob masarn; Pastai Cyri Twrci; Coeden Charcuterie y gallwch ei hadeiladu eich hun; Antipasti Môr y Canoldir; neu Byns Bao wedi'u hysbrydoli gan pad thai?

Os nad ydych chi eisiau rhostio twrci, neu'n ofni na allwch chi gael gafael ar un oherwydd y ffliw adar sy'n bygwth cyflenwadau, peidiwch â phoeni, mae digon o ddewisiadau amgen rydych chi wedi'u darparu ar eich cyfer. Ymhlith y cynigion mae pasteiod fel Pastai Twrci a Stwffin sy'n bryd cyfan ynddo'i hun gan ei fod yn cynnwys llysiau, saws hufennog a bacwn myglyd mewn crwst pwff ac wedi'i orchuddio â moch mewn blancedi. Mae mêl yn gynhwysyn poblogaidd eleni ac yn rhan o Ysgwydd Oen wedi'i rholio gyda garlleg, sitrws a theim. Mae yna 'Gymal Hwyaden i'w Gerfio'n Hawdd', 'Asen Asgell Syrlwyn wedi'i Aeddfedu am 30 diwrnod', Stêc 'Asgwrn Coeden' gyda rhwbiad chimichurri a menyn Nadoligaidd, Gamon gyda Saws Afal Bramley a Charamel a Thorch Porc, Bacwn Mwg a Masarn ymhlith dewisiadau eraill ar eich cyfer.

Mae cyfuno elfennau melys a sawrus i'w cael hyd yn oed mewn stwffin gan ddefnyddio pomgranad a chnau Ffrengig; miso gyda llugaeron a phistachio; afal a llugaeron.

Mae prif gyrsiau di-gig yn cynyddu o ran amrywiaeth gyda Chymal Rhostio Tofu wedi'i Stwffio â Saets a Nionyn, Coron Dim Twrci gyda stwffin nionyn a pherlysiau wedi'u carameleiddio, Wellington Madarch Fegan, Rhost Cnau Nadoligaidd gyda Thartiau Cennin a Chnau Ffrengig, Wellington cnau menyn wedi'i rhostio, Coron a Galette Moron wedi'i rhostio â Brie a Harissa ymhlith y dewisiadau sydd ar gael.

Caru eich pwdinau? Mae'r dewis yn ddiddiwedd gydag enwau creadigol a hyd yn oed doniol ar gyfer rhai pwdinau



newydd fel Tarts S'mores Siocled a Sinsir, Profiterlog y Goedwig Ddu, Tira-Merry-Su a Sleigh de Noël. Mae siocled yn ymddangos mewn sawl ffurf - mewn Torchau, Pwdin Cnau (cragen siocled wedi'i llenwi â ganache, caramel, malws melys a bisged), Conau Pinwydd Ffrwyth Angerdd a Siocled Gwyn i enwi ond rhai. Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n hoffi siocled gallwch chi fwynhau pwdin Banoffee Siâp Seren, Cacen Gaws wedi'i Phobi â Mwyar y Gaeaf, Tiramisu Pistachio neu Gâteau Panettone Lemwn a Mascarpone a llawer mwy!

Hyd yn oed os ydych chi'n hoffi cadw at draddodiad, mae yna addasiadau creadigol – cymerwch y mins pie. Mae llenwadau eleni yn cynnwys bourbon ac oren chwerw, Limoncello, caramel hallt "miliwnydd" a siocled neu garamel hallt yn unig, teisen sinsir a masarn a hyd yn oed hwyaden hoisin (Marks and Spencer).

Mae digon o ddewisiadau bwyd parti i lenwi bwrdd trestl neuadd bentref mwy nag unwaith. Beth am weini Darnau Pysgod Creisionllyd a Thatws, Tosti Tatws Bombay, masarn poeth a nibs pistachio, caws Feta wedi'i bobi gyda dip mêl poeth a Chorizo, Donuts cyri corgimychiaid a chnau coco, pasteiod pistachio, sgonau ham a chaws, Naan Cyw Iâr, Tartledi madarch, Lolipops Berdys, Boncyff Nadolig Sawrus gyda brie a llysiau wedi'u rhostio a Chreision Garlleg Du a Chamembert? Fe fyddwch yn yn rholio adref ac angen tabledi diffyg traul ar ôl hyn i gyd.

Os ydych chi'n chwilio am y dewis Nadoligaidd hollol di-straen gallwch archebu cinio Nadolig "mewn bocs" gan gwmnïau HelloFresh, Donald Russell a COOK; neu fynd am Ginio Rhost Cyfan Moethus mewn bocs o Iceland neu Aldi!

Allwn ni ddim anghofio'r ffefryn Prydeinig - y frechdan. Gyda'r rhan fwyaf o archfarchnadoedd a siopau coffi yn cynnig detholiad eang , efallai y byddwch chi'n ddiolchgar i dîm 'Good Housekeeping Institute' am flasu 32 math o frechdanau, lapiau, toasties a paninis Nadoligaidd. Mae eu ffefrynnau'n cynnwys Wrap Cyw Iâr, Pwdin Swydd Efrog a Bacwn; Ciabatta 'Moch mewn Blancedi' a Ciabatta saws pupur Aleppo, llugaeron a molasses pomgranad. Ymhlith ffefrynnau tîm cylchgrawn 'Good Food' mae Brechdan Madarch Nadoligaidd;

Parhad tudalen 15 >

# Colofn Blasus a Iachus
**(Parhad)**

Brechdan twrci, sbigoglys, bacwn a chatwad; a Falafel perlysiau gwyrdd gyda bresych porffor, catwad bresych coch ymysg y rhai gorau. Os ydych yn llwglyd gallwch bob amser ddewis Wrap Twrci gyda moron wedi'u rhostio â mêl, mayonnaise saets a nionyn, stwffin, a sbigoglys sy'n dod gyda dau bot ar gyfer dipio: un gyda saws saets a nionyn ac un arall gyda briwsion rhosmari, teim a garlleg o'r Co-Op.

Wedi llethu? Dw i'n gwybod fy mod i. Mae'r amser a'r ymdrech a roddir i ddyfeisio cymaint o ddewis yn syfrdanol ac rwy'n mwynhau darllen am yr holl amrywiaethau o fwydydd sy'n cael eu 'creu' bob blwyddyn ar gyfer tymor yr Ŵyl. Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt fydd yn glanio yn fy masged siop; ond mae'n rhaid cael fy hoff Panettone (o siop adnabyddus yng Nghaerdydd). Fel arfer, byddaf yn cefnogi siopau lleol a marchnadoedd Nadolig ar gyfer ffrwythau a llysiau ffres rhydd, cigoedd ac eitemau bwyd o ffynonellau lleol ac yn pori trwy fy rysetiau i baratio rhai danteithion. O ran y pwdin Nadolig, mae hynny wedi'i ddatrys hefyd diolch i ymgyrch codi arian ar gyfer eisteddfod yr Urdd 2027.




(Diolch i gwmni Truffles, Tylagarw am y lluniau yma)

Rwyf am orffen gyda 'gwiriad realiti'. Gor-brynu, cynllunio gwael, a phrynu danteithion gormodol yw rhai o'r rhesymau a roddir dros y cynnydd o 30% mewn gwastraff bwyd yn ystod y cyfnod gwyliau o'i gymharu ag adegau eraill o'r flwyddyn. Ynghyd â hyn mae'r nifer amcangyfrifed o 'aelwydydd sy'n ansicr o ran bwyd' yn cynyddu gydag un o bob pedwar (27%) o blant yn tyfu i fyny mewn cartrefi o'r fath. Mae ymchwil gan Trussell yn awgrymu bod record o 9.3 miliwn o bobl ar hyn o bryd yn wynebu newyn a chaledi yn y DU, gan gynnwys tair miliwn o blant. Mewn gwirionedd, maent yn rhagweld bod eu rhwydwaith o fanciau bwyd yn paratoi i ddosbarthu parsel bwyd brys bob 10 eiliad y gaeaf hwn i ddiwallu'r galw.

# Clwb Rygbi Pontypridd

## Gemau Mawr Mis Rhagfyr

Mae carfan CR Pontypridd wedi cymryd hoe ganol tymor heb ddim gemau cystadleuol am bron i fis cyfan. Yr egwyl cyn y storm oedd hyn fodd bynnag gan fod mis Rhagfyr tyngedfennol ar ddod gyda nifer o gemau 'derbi' o bwys i'w chwarae.



Ponty yn eu gornest ddiweddar yn erbyn Castell Nedd

Mae Ponty yn yr ail safle yn yr Uwch-adran, tu ộl i Merthyr sydd ar y brig - wedi ennill pob gem hyd at ddiwedd mis Tachwedd - a Beddau yn glos tu ộl yn y trydydd safle. Mae Merthyr wedi chwarae un gem yn fwy na Pontypridd sydd, cyn i gemau mis Rhagfyr gychwyn, wyth pwynt tu ộl iddynt.

Mae'r gemau yn arwain at Wyl y Nadolig yn sefyll allan fel rhai all gael gryn effaith ar obeithion yr amryw glybiau o ennill coron y gynghrair, er mor gynnar yn y tymor.

Dydd Sadwrn y 6ed o Ragfyr bydd Ponty yn chwarae gartref yn erbyn myfyrwyr Met Caerdydd. Y penwythnos canlynol mae gornest enfawr ar y gorwel wrth i Ponty deithio tua'r gogledd i wynebu Merthyr. Bydd dwy gêm dderbi o bwys i'w chwarae wedyn dros wythnos y Nadolig, y ddwy ar Heol Sardis, gydag Ystrad Rhondda yn ymweld ar ddydd Sadwrn y 20ain ac yna Beddau ar ddydd Gwyl San Steffan. Mae disgwyl torfeydd enfawr ar gyfer y ddwy ornest leol yma.

Bydd carfan Ponty yn gobeithio elwa ar yr egwyl o fis, gan adael i rai chwaraewyr adfer o'u hanafiadau ac i ganolbwyntio ar yr heriau mawr sydd ar ddod. Er nad yw'r tymor eto wedi cyrraedd ei hanner ffordd, bydd gobeithion Pontypridd o fod yn bencampwyr yr Uwch-adran i raddau helaeth yn y fantol cyn dyfodiad y flwyddyn newydd.

Am yr holl wybodaeth am gemau CR Pontypridd galwch mewn i wefan y clwb – www.ponty.net neu ar y safleoedd cymdeithasol @pontypriddrfc

***Guto Davies***

# Noson o Dri Chyntaf

Nos Wener olaf mis Tachwedd cynhaliwyd gig o dri syrpreis yn yr Olwg.

Yn gyntaf, hwn oedd gig cyntaf llawn y band ifanc lleol addawol iawn, Lan Star. Awen Rhys o Efail Isaf yw prif leisydd y band, ac mae'r band i gyd yn blant Ysgol Garth Olwg. Chwaraeon nhw set o ganeuon gwreiddiol melodig a dwy gan fenthyg – Goleuadau Llundain a Hapus. Bydd Daniel Lloyd a Mr Pinc a Topper yn hapus iawn rwy'n siwr i glywed band ifanc newydd yn defnyddio eu caneuon. Braf adrodd fod pob un o'r band yn feistri ar eu hofferynau, ac Awen yn llais cadarn wrth y meic. Byddai cael un neu ddau o'r bechgyn i ganu lleisiau cefndir i Awen yn gaffaeliad sylweddol wrth iddyn nhw symud ymlaen.



Yn ail, fe lawnsiodd bechgyn Brigyn eu cyfrol newydd o'u hoff ganeuon ar y noson gan ganu nifer dda o'u hen ffefrynnau yn ystod eu set. Braf yw adrodd nad yw Brigyn wedi colli eu dawn na'u cynhesrwydd wedi 21 mlynedd yn gigio ar hyd a lled Cymru.



Yn drydydd, rhannodd Osian Rowlands o'r Fenter y newyddion gwych mai noson Lan Star a Brigyn fydd noson gyntaf ail-lansiad Twrw Taf. Bydd nifer fawr yn cofio Twrw Taf cyn covid fel cyfres wych o gyngherddau llwyddiannus iawn – o Glwb Rygbi Pontypridd i Glwb Golff Llantrisant.

Noson olaf Mis Chwefror fydd y gig nesaf – gyda Daniel Lloyd a Mr Pinc. Newyddion da iawn i bawb sy'n caru cerddoriaeth Cymraeg yn ein hardal.

# Ysgol Creigiau



Cor Meibion Llantrisant gyda Blwyddyn 6

**Gwasanaeth Cynhaeaf y Derbyn**
Roedd gwasanaeth y Dosbarth Derbyn yn llwyddiannus iawn cyn hanner tymor. Roedd y neuadd yn llawn teuluoedd yn mwynhau'r canu a'r llefaru gwych. Diolch yn fawr i'n teuluoedd am eu cyfraniadau i elusen 'Tun ar y Wal' a gyfrannodd ein casgliad i'r Banc Bwyd lleol. Rydym yn siŵr y bydd cyfraniadau caredig ein teuluoedd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau nifer o deuluoedd. Bu aelodau'r Cyngor Ysgol yn brysur yn didoli'r bwydydd cyn iddynt gael eu casglu gan yr elusen.



**Trip Blwyddyn 2 i Gastell Caerdydd**
Aeth disgyblion Dosbarth 2 a Class 2 i ymweld â Chastell Caerdydd i gymryd rhan mewn gweithdy am Chwedlau Cymru. Roedd marchog wedi adrodd hanes Gelert iddynt. Cawsant gyfle i edrych ar arteffactau o'r cyfnod canoloesol ac aethant o gwmpas y castell a'i diroedd. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr.



Dosbarth 2 yng Nghastell Caerdydd

**Blwyddyn 6 yn Ymweld â 'Big Pit'**
Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Amgueddfa Lofaol Cymru 'Big Pit' i ddysgu mwy am y Diwydiant Glo yng Nghymru a'r cymunedau glofaol. Roedden nhw wedi mwynhau'n fawr.



**Côr Meibion Llantrisant**
Ymwelodd 19 o aelodau Côr Meibion Llantrisant â'n disgyblion Blwyddyn 6. Siaradon nhw â'r disgyblion am eu profiadau yn gweithio yn y pyllau glo fel peirianwyr, ac am bwysigrwydd eu hetifeddiaeth a'u diwylliant iddynt. Mwynheuodd pob un gyfarfod â nhw, gwrando ar eu straeon a'u canu swynol. Profiad arbennig iawn i bawb!

**Gwasanaeth Tân**
Ymwelodd pedwar ymladdwr tân o Orsaf Dân Yr Eglwys Newydd â'r ysgol. Cymerodd disgyblion Blwyddyn 2 a Blwyddyn 5 ran mewn sesiynau yn edrych ar ddiogelwch tân. Ymatebodd y disgyblion yn hyderus ac yn synhwyrol wrth drafod peryglon tân a rôl y gwasanaethau achub.

**Ymweliad â Safle Persimmon**
Yn ddiweddar ymwelodd aelodau o'n Pwyllgor Eco â safle Persimmon ar Ffordd Llantrisant. Ym mis Mawrth 2024, daeth dau bensaer i'r ysgol i gynnal gweithdy creu teils clai gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6. Roedd y gweithdy yn gysylltiedig â dylunio parciau chwarae ar gyfer ystâd dai Persimmon. Mae'r parc cyntaf a ddyluniodd y penseiri bron wedi'i gwblhau. Er mwyn parhau â'r cyswllt gyda'r ysgol, fe wahoddon nhw aelodau o'n Pwyllgor Eco i'r parc i'w helpu i blannu coed - thema'r parc yw'r Goedwig Hudolus. Roedd y disgyblion wrth eu boddau - lwyddon nhw blannu dros 100 o goed! Diolch o galon i Creigiau Travel am gludo aelodau o'n Pwyllgor Eco i safle ac o safle Persimmon am ddim.



**Arweinwyr Iard**
Daeth tri swyddog o Wasanaethau Chwarae Plant Cyngor Caerdydd i'r ysgol i asesu grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 5. Tua chwe wythnos yn ôl daeth y tri swyddog i'r ysgol i gyflwyno sesiwn hyfforddiant o 2 awr i'r disgyblion hyn. Yn ystod yr asesiad, siaradodd y swyddogion â'r disgyblion a'u gwylio wrth iddynt arwain y chwarae ar yr iard. Rydym wrth ein boddau bod pob un wedi pasio â chlod uchel - nododd y swyddogion eu bod yn un o'r grwpiau gorau y maent wedi gweithio gyda nhw. Ardderchog wir! Dyma gyfle gwych i greu diwylliant parhaol o chwarae cadarnhaol ac arweinyddiaeth disgyblion yn ein hysgol.

**Gwasanaeth Cofio ym Mhentyrch**
Er gwaethaf y tywydd gwlyb, cynhaliwyd Gwasanaeth Cofio hynod deimladwy ger Cofeb Ryfel Pentyrch ddydd Sul 9fed Tachwedd. Llongyfarchiadau i Fflur a Carys, Dosbarth 6, am gynrychioli Ysgol Gynradd Creigiau gyda'u darlleniadau Cymraeg gwych. Rydym yn hynod falch o'r ddwy.



Fflur a Carys yng Ngwasanaeth Cofio Pentyrch

**Disgo Calan Gaeaf**
Ar ddiwedd hanner tymor prysur trefnodd Cyfeillion yr Ysgol ddisgo Calan Gaeaf yn neuadd yr ysgol. Roedd y neuadd dan ei sang gyda gwrachod, sgerbydau a phob math o greaduriaid brawychus eraill! Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am eu gwaith diflino yn trefnu'r disgo.



**Plant Mewn Angen**
Dathlon ni ddiwrnod 'Plant mewn Angen' yn yr ysgol trwy wisgo dillad smotiog, streipïog a lliwgar. Cawsom ddiwrnod llawn hwyl a sbri! Diolch i'n teuluoedd am eu cyfraniadau. Codwyd £435.69 - gwych!



Dosbarth 1 yn mwynhau Diwrnod Plant Mewn Angen

Parhad tudalen 17 >

## Ysgol Creigiau (Parhad)



Dosbarth 5 ar Ddiwrnod Plant mewn Angen

**Diwrnod y Cofio**

Ar yr 11eg o Dachwedd, am 11yb aethom ni i gyd allan ar yr iard i gynnal gwasanaeth Diwrnod y Cofio. Wyth disgybl o Flwyddyn 6 oedd yn arwain y gwasanaeth. Eglurodd Bode, Ffion, Poppy, Cody, Fflur, Carys, Eleri ac Esther bwysigrwydd Diwrnod y Cofio a chwaraeodd Ollie y 'Last Post' yn fendigedig ar y trombôn. Yna, arsylwon ni ddau funud o dawelwch. Roedd pob un o'r disgyblion wedi sefyll yn barchus i gofio am eraill - rydym yn falch iawn ohonynt.



**Wythnos Gwrth-Fwlio**

Yn ystod mis Tachwedd fe ddathlon ni Wythnos Gwrth-fwlio. Y thema eleni oedd 'Gallu er Gwell'. Nod Wythnos Gwrth-fwlio yw anfon neges glir a chadarnhaol nad yw bwlio yn dderbyniol yn ein hysgolion a'n cymunedau. Trwy gydol yr wythnos bu'r disgyblion yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau a gwersi priodol i'w hoedran.

**Llwyddiant Cog-Urdd**

Llongyfarchiadau i Heti (Dosbarth 5) am gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth CogUrdd a gynhaliwyd yn Ysgol Bro Morgannwg yn ddiweddar. Coginiodd Heti frecwast sawrus blasus iawn. Canmolodd y beirniaid hi ar ei sgiliau coginio ardderchog. Roedd wyth disgybl arall o ysgolion eraill ledled Caerdydd yn cystadlu. Roedd Heti yn falch iawn o dderbyn y drydedd wobr. Gwych Heti!



**Ynadon yn y Gymuned**

Ymwelodd chwech o ynadon â'n disgyblion Blwyddyn 6 i roi cyflwyniad am eu rôl hynod bwysig ynghyd â'r system droseddol a chyfiawnder sifil. Dysgodd y disgyblion am y system gyfreithiol ac am eu llys lleol mewn ffordd hwyliog ac addysgiadol drwy ail-greu ffug dreial ar Seiberfwlio. Wrth iddyn nhw gymryd rhan, fe ddysgon nhw'r negeseuon pwysig am ganlyniadau difrifol Seiberfwlio yn ogystal â'r effaith niweidiol mae'n ei gael ar y dioddefwr.

**Traws Gwlad yr Urdd**

Ddydd Sadwrn, 8fed o Dachwedd, aeth 5 o ddisgyblion yr ysgol i gystadlu yng nghystadleuaeth Traws Gwlad yr Urdd ar Gaeau Llandaf, Pontcanna. Rhedodd Elliott, Griff, Tristan, Tom a Martha yn wych ac roeddynt wrth eu boddau. Ardderchog wir!.



**Wythnos Agor Eich Llygaid**

Mwynheuodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 amrywiaeth o weithdai fel rhan o Wythnos Agor Eich Llygaid. Dyluniwyd Wythnos Agor Eich Llygaid i danio ac ysbrydoli diddordeb disgyblion mewn ystod eang o swyddi. Ymunon nhw â sesiwn dan arweiniad Dauson Environmental Group - 'Arwyr y Blaned yn y Dyfodol'; Rolls Royce Submarines Limited a'r GIG. Roedd pawb wedi mwynhau'r sesiynau'n fawr.

**Ymweliad Blwyddyn 3 â Chaerllion**

Ymwelodd disgyblion Dosbarth 3 a Class 3 ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yng Nghaerllion. Cymeron nhw ran mewn gweithdy chwarae rôl a mwynheuon nhw ymweld â'r Amffitheatr, Barics a'r Baddonau Rhufeinig. Roedd eu hymddygiad yn wych trwy gydol yr ymweliad - da iawn Blwyddyn 3.



**Diwrnod Plant y Byd**

Ddydd Iau, 20fed o Dachwedd, dathlon ni Ddiwrnod Plant y Byd sy'n nodi mabwysiadu Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Roedd ein Cyngor Ysgol wedi cyfarfod i ddewis hawl i bawb ganolbwyntio arni yn ystod y dydd. Dewiswyd Erthygl 31 - Yr hawl i ymlacio a chwarae. Ymunodd sawl dosbarth â gweithdy Diwrnod Plant y Byd a chawsant amser chwarae ychwanegol.

## TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

**Pen-blwydd**

Llongyfarchiadau i Danny Grehan ar ddathlu pen-blwydd arbennig diwedd Tachwedd.

**Croeso**

Llongyfarchiadau mawr i Gruff a Beth ar enedigaeth Rhodri ac Osian, dau frawd bach i Mabli.



**Llwyddiant PobUrdd**

Llongyfarchiadau i Mali, Dosbarth 5, am gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth PobUrdd a gynhaliwyd yn Ysgol Glan Morfa. Roedd Mali wedi pobi Cacen Ddathlu blasus iawn. Canmolodd y beirniad hi ar ei sgiliau pobi ardderchog. Gwych Mali!



**Ymweld â'r Hen Reilffordd**

Aeth disgyblion Dosbarth 1 a Class 1 am dro i weld yr hen reilffordd yn y pentref. Roedd pawb wedi mwynhau ac wedi ymddwyn yn wych. Da iawn chi, Blwyddyn 1!



Dosbarth 1 yn ymweld a'r hen reilffordd

# Pan yw fasâd yn chwalu

***Llanast!*, cyfieithiad Gareth Miles o ddrama Yasmina Reza *Le Dieu du Carnage*, YMa, Pontypridd, nos Lun, Tachwedd 24.**

Pan glywes i'r miwsig Ffrangeg cyn cychwyn y ddrama daeth atgof am lymeitian gwin coch mewn caffi yn Biarritz. Edrychais i o gwmpas ac roedd theatr YMA'n llawn cyn i ni wylio comedi foesau lle byddai ugain munud o drafod gwaraidd rhwng oedolion yn troi'n anhrefn llwyr.



Gareth Miles

Daw Mr a Mrs Huws a Mr a Mrs Reilly at ei gilydd er mwyn anelu at gytundeb ar ôl i'w meibion ymladd mewn parc. Marged Huws (Manon Wilkinson), y mae ei mab wedi ei anafu, yw'r un sy am osgoi mynd i gyfraith ond o fewn deugain munud hi sy'n cyhuddo Alun ac Annette Riley (Carwyn Jones a Gwenllian Higginson) o fod yn rhieni annerbyniol.

Ar y cychwyn nod Meic Huws (Siôn Emyr) yw bod y ddau fab yn cymodi. Mae'n bychanu'r trais rhwng y ddau ac yn cyfadde ei fod yn arfer arwain gang ei hun. Ond, yn raddol, datgela nodweddion annymunol, er enghraifft wrth gondemnio magu plant fel gwastraff amser, a chyfadde iddo ryddhau bochdew ei ferch ar y stryd am ei fod yn ofni creaduriaid o'r math.

Fel Marged mae Annette Riley yn gobeithio datrys yr anghydfod ac, ar y cychwyn, cred y gall cyfathrebu wella'r sefyllfa rhwng y ddau fab. Ond mae pwysau bod yn fam wedi erydu ei hunanhyder a theimla'n ynysig am fod ei gŵr yn ymgolli yn ei waith. Hi yw'r cymeriad mwya corfforol ddinistriol. Ei chwydu, er yn ddamweiniol, sy'n trochi llyfrau gorau Marged, ac Annette sy'n dodi ffôn ei gŵr mewn llond fas o diwlips a dŵr.

**Mwya onest**

A beth am Alun Riley? Y cymeriad mwya ystrydebol efallai. Mae'n anghwrtais wrth amharu ar y cyfarfod yn aml oherwydd ei sgyrsiau ar y ffôn. Yn annisgwyl, derbyn fod ei fab yn anwaraidd ac nad oes modd ei wella. Ar ryw ystyr, fe yw'r un mwya onest oherwydd tra bod y gwragedd yn dweud




bod angen trugaredd at bobol eraill, try Alun yn athronyddol ac awgrymu taw hunan-les sy'n rheoli'r hyn mae rhywun yn ei wneud.

Llongyfarchiadau i'r pedwar actor. Actio ensemble ar ei orau oedd hwn yn darlunio thema sylfaenol Yasmina Reza, hynny yw dan fasg gwaraidd y dosbarth canol llecha greddf i droi at drais ac anhrefn. Ar adegau roedd y gynulleidfa'n lychan chwerthin ond faint ohonyn nhw oedd yn sylweddoli taw nhw oedd y cyff gwawd?

Un cwestiwn bach. Oedd angen i Alun Riley siarad ar y ffôn yn Saesneg? Dim ond gofyn.

*Llanast!* oedd y ddrama gynta i Betsan Llwyd ei chyfarwyddo pan ymunodd â Theatr Bara Caws yn 2012. Wrth ffarwelio â'r cwmni fel Cyfarwyddwr Artistig eleni, mae hi wedi penderfynu cyfarwyddo'r ddrama unwaith eto. Y cylch yn gyflawn felly a diolch iddi hi am ei holl waith.

Mynnodd Yasmina Reza taw drych o gymdeithas yw theatr. Os felly, roedd y cynhyrchiad hwn mewn Cymraeg cyhyrog a rhythmig yn llwyddiant ysgubol. Fel dywedodd Betsan Llwyd roedd yn gyfle i gofio yn y ffordd orau bosib gyfraniad Gareth Miles, un o garedigion y theatr Gymraeg.

**Cynhyrfwr**

# Herio'r Elfennau
## (Parhad)



Os nad ydych chi eisoes wedi gwneud hynny, byddem yn gwerthfawrogi os allwch chi helpu Gwenno i gefnogi'r plant sydd wedi colli cymaint yn Gaza. Diolch o galon."

Mae Achub y Plant wedi bod yn gweithio yn Gaza ers degawdau, yn rhedeg canolfannau gofal iechyd sylfaenol ac yn darparu gwasanaethau hanfodol i blant, mamau a theuluoedd, gan gynnwys sgrinio a thriniaeth ar gyfer diffyg maeth. Mae timau Achub y Plant yn darparu dŵr, yn rhedeg mannau sy'n gyfeillgar i blant ac ardaloedd mam a babanpd lle gall menywod beichiog a menywod sy'n bwydo o'r fron dderbyn cefnogaeth ar faeth. Mae yr elsuen hefyd yn sefydlu canolfannau dysgu dros dro i helpu plant i barhau â'u haddysg.

Os hoffech gefnogi ewch i dudalen Gwenno ar Just Giving.



# Ysgol Llanhari

**Taith i Sicily 22-25 o Hydref**

Teithiodd grŵp o ddisgyblion Daearyddiaeth TGAU ac Uwch Gyfrannol Llanhari i Sicily am dridiau bythgofiadwy! Wrth archwilio tirweddau folcanig a safleoedd hanesyddol roedd y daith yn gyfuniad perffaith o ddiwylliant, daeayddiaeth ac antur.

Dechreuwyd ein taith gyda ymweliad â **Syracuse**, unwaith yn un o ddinasoedd mwyaf pwerus y Môr Canoldir hynafol. Archwiliodd y disgyblion ei barc archeolegol atmosfferig, lle mae temlau ac amffitheatrau Groegaidd yn dal i sefyll yn falch.

Daeth antur o ddifrif wrth i'r disgyblion ddringo i gopa **Vulcano**, un o gônau folcanig gweithredol Ynysoedd Aeolian gan brofi prosesau folcanig parhaus o'u blaenau eu hunain.

Uchafbwynt i lawer o'r disgyblion oedd ymweld â **Llosgfynydd Etna**, y llosgfynydd mwyaf gweithredol yn Ewrop. Mwynhaodd y disgyblion y daith anturus i'r copa gyda golygfeydd gwych o olion llifoedd lafa.

Daeth y daith i ben gydag ymweliad cofiadawy â **Taormina**, roedd ei olygfeydd godidog o'r môr ac o Fynydd Etna gerllaw yn dod â dysgu'r ystafell ddosbarth yn fyw, gan ddangos sut y mae daearyddiaeth, hanes a diwylliant yn cydblethu.

Fe wnaeth y daith gyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o ddaearyddiaeth unigryw'r Eidal, gan feithrin atgofion bythgofiadwy.









**Banc Bwyd**

Aeth disgyblion yr adran gynradd i'r Banc Bwyd lleol gyda'r holl gyfraniadau o'r ysgol. Dysgon nhw am bwysigrwydd y bwyd a'r rhoddion hael a sut mae'r gwirfoddolwyr yn rhoi trefn a'r y bwyd.



**Chwaraeon**

Mae'r adran uwchradd wedi bod yn hynod brysur dros yr wythnosau diwethaf, rhwng cystadlu yng nghystadeluaethau rygbi, pel-droed a phel-rwyd ac yn gwneud yn arbennig o dda yn chwarae hoci. Diolch i'r staff am eu hyfforddi a dymunwn bob lwc i'r disgyblion yn y rowndiau nesaf.













**Mewn Cymeriad**

Roedd disgyblion blwyddyn 4, 5, 6 a 7 wedi mwynhau perfformiad gan 'Mewn Cymeriad' am Hanes yr Iaith gan eu bod yn dysgu am ein diwylliant.







Parhad tudalen 22 >

# Menter Caerdydd

**Dathlu'r Nadolig yn y Brifddinas**
Wrth i'r flwyddyn ddirwyn i ben, cofiwch gadw llygad ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y newyddion diweddaraf am ein gweithgareddau, cyrsiau a theithiau ar gyfer 2026. Bydd cyfle i ail-gofrestru ar gyfer sesiynau poblogaidd megis Sgwrs y Mis, pilates a'r Gerddorfa Ukulele a chlywed y diweddaraf am gyrsiau undydd a gweithgareddau i ddysgwyr.
Cyn y Nadolig, bydd ein harlwy yn adlewyrchu ysbryd yr ŵyl gyda llu o ddigwyddiadau tymhorol i'r teulu cyfan gan gynnwys Groto Siôn Corn, cyngerdd Mewn Tiwn a Laffwyl. Dyma gip ar galendr Menter Caerdydd dros yr wythnosau nesaf...

**Gweithdy Torch Nadolig**
Bydd cyfle i wneud torch Nadolig nos Iau, 4 Rhagfyr yn Ysgol Pencae yng nghwmni Rhian Shugar. Darperir yr holl ddeunyddiau, diod a mins pei. Beth am gael criw o ffrindiau at ei gilydd i gael ychydig o hwyl wrth greu addurn tymhorol hyfryd ar gyfer y drws? (7.00-9.00yh, cost £45)

**Dysgwyr a Siaradwyr Newydd**
Rydym yn falch o gynnal dathliad Nadoligaidd i ddysgwyr ar y cyd â staff Dysgu Cymraeg Caerdydd ac Amgueddfa Sain Ffagan ar fore Gwener, 5 Rhagfyr. Yn dilyn paned a sgwrs, byddwn yn cerdded draw i gapel Pen-rhiw i ganu carolau Cymraeg a mwynhau awyrgylch hudol yr Amgueddfa Werin. (10.00-12.00yb. Am ddim – parcio £7)
Bydd Andy, un o griw'r bore coffi misol ar Zoom, yn cynnal cwis â naws Gymreig yn ein sesiwn olaf cyn y Nadolig ar fore Gwener, 19 Rhagfyr a bydd y sesiynau sgwrsio yn yr hybiau yn parhau hyd y Nadolig. Llaneirwg – 2 a 16 Rhagfyr am 10.30; Rhydypennau – 4 a 18 Rhagfyr am 10.30; Rhiwbeina – 5 a 19 Rhagfyr am 10.30.

**Dathliad Nadolig Mei Gwynedd a'r Gerddorfa Ukulele**
Bydd Criw'r Clwb Oedolion yn ymuno â Mei Gwynedd a'r Gerddorfa Ukulele i ddathlu'r Nadolig yn nhafarn y Victoria Park, nos Fercher, 10 Rhagfyr. Mae croeso i bawb ymuno yn yr hwyl gyda'r noson yn dechrau am 8.00yh a'r mynediad yn rhad ac am ddim.

**Sgwrs y Mis**
Yr Athro Christine James fydd yn ymuno â ni ar Zoom nos Iau, 11 Rhagfyr i ddathlu'r Nadolig drwy farddoniaeth. Mewn sgwrs fydd yn llawn ysbryd yr ŵyl bydd Christine yn rhannu rhai o'i hoff gerddi Nadolig. Cofiwch ail-gofrestru ar gyfer blwyddyn newydd o sgyrsiau yn 2026 gyda'r un gyntaf ar nos Iau, 22 Ionawr. Bydd un o aelodau ffyddlon y gynulleidfa, Alwyn Evans, yn adrodd hanes George W Hall, a deithiodd o Gymru i Orllewin Awstralia ym 1895 a datblygu un o fwyngloddfeydd aur cyfoethocaf Awstralia, Sons of Gwalia. (Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 i ymaelodi am y flwyddyn gyfan).

**Laffwyl**
Os ydych chi'n chwilio am rywle i fynd ar gyfer parti gwaith, beth am fachu tocyn ar gyfer Laffwyl Nadolig? Yr MC Aled Richards fydd yn cadw trefn ar y digrifwyr Mel Owen, Jeff Japers, Gruffudd Eifion Owen a Beth Jones i sicrhau noson llawn gwenu a chwerthin. (Nos Iau, 11 Rhagfyr, tocynnau - £10 o flaen llaw a £12 ar y drws).

**Mewn Tiwn**
Y delynores werin Bethan Nia fydd yn diddanu'r gynulleidfa yng Nghanolfan Beulah fore Llun, 15 Rhagfyr wrth i ni ddathlu'r Nadolig gyda gwledd o gerddoriaeth. Bydd y drysau'n agor am 11.15 am baned a sgwrs cyn i'r gyngerdd ddechrau am 11.30. Does dim angen tocyn ond os hoffech gynnig rhodd, gellir gwneud hynny ar y wefan o flaen llaw neu drwy ddod ag arian parod ar y diwrnod.

**Siôn Corn**
Mae pob tocyn wedi'i werthu ar gyfer Groto Siôn Corn yn yr Eglwys Norwyaidd ar ddydd Sadwrn, 20 Rhagfyr. Mae Siôn Corn yn ymweld â Chaerdydd fel rhan o Farchnad Nadolig GM Notebooks lle bydd cyfle i brynu anrhegion amrywiol o waith llaw traddodiadol a chynnyrch cynaliadwy i fwydydd lleol a danteithion tymhorol. Dewch draw rhwng 12.00 a 4.30 i wneud ychydig o siopa Dolig!

**Amser Stori Nadolig**
Llyfrgell Penylan fydd lleoliad ein sesiwn Amser Stori Nadolig ar fore Iau, 18 Rhagfyr am 10.30, gyda stori a chrefft ar gyfer plant 0-4 oed a'u gofalwyr. Dyma gyfle i ganu caneuon Nadoligaidd a chymdeithasu yng nghwmni ffrindiau.

**Edrych ymlaen at 2026**
Bydd ein cyrsiau a gweithgareddau yn ail-ddechrau ym mis Ionawr felly cofiwch ail-gofrestru ar y wefan mewn da bryd. Bydd sesiynau Amser Stori, Y Clwb Oedolion a'r sesiynau sgwrsio yn yr hybiau hefyd yn dychwelyd yn y flwyddyn newydd a chynhelir Bwrlwm a'r Cynllun Gofal yn ystod hanner tymor mis Chwefror.
Mae rhestr o deithiau ac ymweliadau hanner cynta'r flwyddyn bellach i'w gweld ar y wefan gan ddechrau gyda theithiau tywys i Arddangosfa Artes Mundi yn yr Amgueddfa Genedlaethol ar fore Mawrth, 20 Ionawr ac i Archifau Morgannwg ar fore Mawrth, 3 Chwefror. Mae'r ddau ymweliad yma'n rhad ac am ddim a'r niferoedd yn gyfyngedig.

**Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a Nadolig Llawen i chi i gyd.**
Gwefan: mentercaerdydd.cymru
Facebook: @m.caerdydd
Instagram: @mentercaerdydd
E-bost: post@mentercaerdydd.cymru
Ffôn: 029 2068 9888



# Ysgol Gymraeg Castellau

**Sioe Olifer Blynyddoedd 3-6**
Llongyfarchiadau anferthol i ddisgyblion Blynyddoedd 3 - 6 am berfformiadau gwych o'n Sioe Olifer. Roedd Cast A a Chast B wedi perfformio yn arbennig ym mhob Sioe. Diolch arbennig i Mrs Bickford am ail-ddefnyddio hen ddillad i greu pob un gwisg ar gyfer y sioe gyda help y disgyblion i gyd.








**Cynghorau Ysgol**
Mae'r Cynghorau wedi eu hethol ac wrthi'n gosod targedau ar gyfer y flwyddyn academaidd hon.








**Diwrnod Plant Mewn Angen**
Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn gwisgo pyjamas / dillad Pudsey ar gyfer ddiwrnod Plant Mewn Angen eleni.






**Sul y Cofio**
Diolch o galon i aelodau Cewri Castellau am eu darlleniadau yn ystod Gwasnaeth Sul y Cofio yng Ngardd Goffa Beddau. Roedd y disgyblion hefyd wedi mwynhau gweithgareddau Dydd y Cofio yn yr ysgol hefyd.




**Trip Bl. 1 a 2 i Techniquest**
Cafodd Bl. 1 a 2 ddiwrnod gwych yn Techniquest yn darganfod mwy am rymoedd.





**Twrnament Rygbi**
Da iawn i'r disgyblion a gymerodd rhan yn nhwrnament rygbi Clwstwr Garth Olwg.



Parhad tudalen 22 >

## Ysgol Llanhari (Parhad)

**Dathliadau Plant Mewn Angen**

Diolch i bob un am gefnogi achos Plant Mewn Angen eto eleni. Gwisgodd y disgyblion ddillad eu hunain a mwynhau gweithgareddau amrywiol. Diolch am eich cefnogaeth at yr achos teilwng hwn.







**Bryn Pica**

Diolch i Mrs Webb am drefnu teithiau i ddisgyblion yr Adran Uwchradd i Fryn Pica. Roedd yn gyfle gwych i ddysgu am bwysigrwydd a threfniadau gwastraff ac ailgylchu.





## Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

**Ffair Nadolig**

Diolch yn fawr i Gymdeithas Ffrindiau YGG Tonyrefail am drefnu Ffair Nadolig lwyddiannus iawn. Roedd Siôn Corn yn brysur iawn yn rhannu anrhegion i'r plant. Roedd amrywiaeth eang o stondinau gan gynnwys rhai gemau, crefftau, llyfrau Cymraeg, ail-gylchu teganau a chrempogau.

**Mentergarwch**

Mae holl ddisgyblion yr ysgol wedi bod wrthi yn brysur iawn yn creu addurniadau Nadolig i'w gwerthu yn ein Ffair Nadolig. Y bwriad yw defnyddio elw o'r fenter i brynu adnoddau i'r dosbarthiadau. Diolch yn fawr i'r disgyblion a'r staff am eu gwaith caled ac am gynhyrchu addurniadau o safon.

## Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau (Parhad)

**Ymweliad Laura o Brifysgol De Cymru**

Diolch yn fawr i Laura o Brifysgol De Cymru am ddod i gynnal gweithdai STEM gyda ddisgyblion Bl. 4 a 5.














**Sain Ffagan**

Cafodd Blwyddyn 5 a 6 brofiad gwych yn Sain Ffagan yn profi bywyd fel disgybl ysgol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd y gweithdy yn rhan o waith y tymor ar fywyd plant yn ystod Oes Fictoria.




**Plant Mewn Angen**

Diolch i'r Cyngor Iechyd a Lles am drefnu gweithgareddau i'r plant fwynhau fel rhan o weithgareddau Diwrnod Plant Mewn Angen. Casglwyd £155 i'r elusen. Diolch i bawb am gefnogi.

**Llysgenhadon Gwych**

Mynychodd y Llysgenhadon Gwych gynhadledd blynyddol gyda Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru i drafod hawliau plant ac ymgyrch y comisiynydd am y flwyddyn. Mae Addie a Bethan wrthi yn brysur ar waith yn codi ymwybyddiaeth o hawliau plant yn yr Ysgol.



**Sul y Cofio**

Diolch i ddisgyblion o flwyddyn 5 a 6 am gynrychioli'r ysgol yng ngwasanaeth Sul y Cofio ym Mynwent Trân.



# Ysgol Garth Olwg

**Cystadleuaeth Iaith Genedlaethol**

Cymerodd ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9 ran yn y Gystadleuaeth Iaith Genedlaethol gyda'r adran Saesneg, gan weithio'n galed i ddatrys codau mewn gwahanol ieithoedd. Bu llawer yn rhoi o'u hamser eu hunain, gan ddod i mewn amser cinio ac ar ôl ysgol i baratoi. Rydyn ni'n falch iawn o'u hymdrech ac yn edrych ymlaen at y canlyniadau'r wythnos nesaf.





**Taith i'r Theatr**

Aeth disgyblion Blwyddyn 12 i'r theatr i wylio *Death on the Nile* fel rhan o'u hastudiaethau Llenyddiaeth a Iaith Saesneg. Roedd pawb wedi joio!



**Clybiau Amser Cinio**

Mae disgyblion wedi bod yn manteisio ar glybiau amser cinio yr adran Saesneg yn ddiweddar, gyda llawer yn mynychu Clwb Creadigol ar ddydd Llun sy'n cael ei redeg gan ein Chweched Dosbarth, a Chlwb Gwaith Cartref ar ddydd Gwener. Mae wedi bod yn wych gweld cymaint yn cymryd rhan ac yn defnyddio'r amser ychwanegol i weithio ac i gael cymorth.



**Age Connects**

Ar gyfer Her Elusen eleni, mae 9D1 wedi penderfynu dewis yr elusen Age Connects Morgannwg. Mae'r elusen yn gweithio'n agos gyda chartrefi gofal preswyl ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Eleni, maen nhw'n cynnal ei Apêl Cerdyn Nadolig eto. Felly, yn lle gofyn am arian, mae 9D1 yn gofyn am gardiau Nadolig. Mae disgyblion wedi bod yn brysur iawn yn ysgrifennu cardiau Nadolig – da iawn bawb.




**Glan-llyn a Jonathan**

Yn ystod mis Tachwedd aeth criw ohonom ni sydd yn astudio Safon Uwch Cymraeg i Lan-llyn i fynychu cwrs iaith gyntaf Cymraeg oedd yn cael ei redeg gan Brifysgol Bangor. Roedden ni yno am dri diwrnod, ac roedd amserlen lawn gennym ni bob diwrnod. Roedd llwyth o ysgolion ar draws Cymru yno, ac felly roedden ni wedi creu ffrindiau newydd yn ystod y tridiau. Yn ystod y tri diwrnod mynychon ni ddarlithoedd am y cerddi, gwaith cwrs neu'r darnau llafar rydym yn astudio. Roedd hwn yn ddiddorol iawn i gael mwy o gefndir a mwy o nodiadau am y gwaith. Yn ogystal cawson ni'r cyfle i wneud gweithgareddau, mynd i'r Ysgwrn sef cartref Hedd Wyn, dawnsio gwerin a hefyd cafon ni Talwrn y beirdd ar y noson olaf. Yn ystod y noson yna roedd yn rhaid paratoi parodi o gerdd a hefyd cân ysgafn i gyflwyno o flaen pawb arall, a phenderfynon ni wneud y gân i'r dôn 'Paid â bod ofn' gan Eden ac roedd hwn yn ddoniol ac yn hwyl iawn. Yn ogystal cafon ni seremoni cadeirio lle enillais i'r gadair am ysgrifennu cerdd ar y thema lon/lonydd/ffyrdd, ac roedd hwn yn brofiad gwych. Roedd pawb wedi blino erbyn y diwrnod olaf, ond wedi cael amser gwych.





Yn ogystal aethon ni i wylio Jonathan yn cael ei ffilmio yn ystod y mis, roedd yn brofiad gwych cael gwylio rhaglen fel hon yn cael ei greu, gyda'r cyfle i weld y golygfeydd gwahanol yn cael ei ffilmio a gweld y rhaglen tu ôl i'r lleni. Roedd yn cael ei ffilmio yn y stiwdio ym Mae Caerdydd, ac roedd gofyn i ni wisgo crys rygbi Cymru gan fod y rhaglen yn trafod rygbi Cymru. Roedd Ken Owens a Mali Ann Rees yn westai ar y rhaglen yma, a chawson ni gyfle i gael llun gyda Ken ar y diwedd. Wnaethon ni wir fwynhau.

Gan Mari Roberts Blwyddyn 12

Dyma gerdd fuddugol Mari:

**Adlais y gorffennol**

Wrth gerdded yma heddiw,
Rwy'n dal i glywed si,
Sŵn y trenau'n sgrechian
ar gledrau'r oes a fu.

Wrth gerdded yma heddiw,
Ar lwybr hir a maith,
Fe glywaf sŵn yr adar
yn trydar ar ein taith.

Wrth gerdded yma heddiw,
Fe welaf goed a dail,
Cochni yn yr Hydref
a gwyrddni pan ddaw'r haul.

Wrth gerdded yma heddiw,
Ger platfform oedd un dydd
yn brysur yn llawn pobl,
Yn awr yn adfail cudd.

Mae'n dawel yma heddiw,
Mae'r gwaith 'di dod i ben,
Y pyllau wedi peidio
dim ond coed uwchben.

Uwchben y cledrau rhydlyd,
Mae dail a mwd a phridd,
Yn claddu y gorffennol
a'r llewyrch fu un dydd.



## Ysgol Garth Olwg (parhad)

**Cystadleuaeth Dartiau**
Llongyfarchiadau i Celyn Saunders ar dderbyn medal am gynrychioli Cymru yng Nghwpan y Byd JDC yn Gibraltar.




**Rotari Offerynnol**
Llongyfarchiadau i Dan, Elis a Branwen o flwyddyn 12 am gystadlu yng Nghystadleuaeth Offerynnol y Rotari. Perfformiadau arbennig gan y tri! Llongyfarchiadau enfawr i Dan hefyd am ennill y wobr gyntaf yn y rownd yma - camp arbennig! Bydd yn cystadlu yn y rownd nesaf ym mis Ionawr.





**Rotari Lleisiol**
Llongyfarchiadau i Awen blwyddyn 12 a Miley o flwyddyn 13 am gystadlu yng Nghystadleuaeth Leisiol y Rotari. Perfformiadau arbennig gan y ddwy! Llongyfarchiadau enfawr i Miley hefyd am ennill y wobr gyntaf yn y rownd yma! Bydd Miley yn cystadlu yn y rownd nesaf sy'n digwydd mis Ionawr.



**Taith i weld Cerddorfa**
Cafodd Blwyddyn 10 a 12 sy'n astudio Cerddoriaeth y cyfle arbennig i fynd i weld ymarfer perfformiad Cerddorfa Genedlaethol y BBC yn ymarfer yn Neuadd yr Hoddinott. Roedd yn gyfle gwych i'r disgyblion weld cerddorfa byw a chael gweld sut mae ymarfer gyda cherddorion proffesiynol yn gweithio. Roedd y disgyblion wedyn wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r Arweinydd. Roedd yn daith wych ac roedd y disgyblion wedi mwynhau.



Taith i weld Cerddorfa

**Plant mewn angen**
Da iawn i aelodau o'r Fforwm Cydraddoldeb oedd wedi gweithio'n galed iawn yn ystod diwrnod Plant Mewn Angen drwy werthu danteithion a diodydd. Roedd y stondin amser egwyl wedi casglu dros £200!



## Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

**Diwrnod Plant Mewn Angen**
Gwisgodd bawb ddillad anffurfiol i'r ysgol ar y thema "Heria dy hun" er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen yma. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd ac fe gododd yr ysgol £520.

**Pêl-fasged**
Cafodd ddisgyblion blynyddoedd 3-6 gyfle i dderbyn hyfforddiant pêl-fasged. Diolch yn fawr i John Bunyon o'r Pontypridd Panthers am gynnig profiad gwych i'r plant i ddysgu nifer o sgiliau newydd,









**Cadi Coblyn**
Daeth Cadi Coblyn i'r ysgol yn ddiweddar i ddiddanu disgyblion y Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2. Roedd Cadi Coblyn yn falch iawn i gael cymorth y plant i gwblhau ei gwaith er mwyn iddi allu cael amser i fynd ar sled Siôn Corn. Diolch yn fawr i Anwen Carlisle a Mia am sioe fendigedig!





**Casglu Afalau**
Bu disgyblion y Meithrin yn brysur yn casglu afalau o'n gardd gan chwilio am afalau coch a gwyrdd, a rhai bach canolig a mawr. Roedd yr afalu'n flasus dros ben!

